

# Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

---

|                                  |  |
|----------------------------------|--|
| Lleoliad:                        | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:                            |
| Fideo gynadledda drwy Zoom       | <b>Gareth Williams</b>   |
| Dyddiad: Dydd Llun, 28 Medi 2020 | Clerc y Pwyllgor   |
| Amser: 10.00                     | 0300 200 6565  |
|                                  | <a href="mailto:SeneddDCC@senedd.cymru">SeneddDCC@senedd.cymru</a> |

---

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar [www.senedd.tv](http://www.senedd.tv)

Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.30–10.00)

## Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

10:00

### 2 Offerynnau nad ydynt yn codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

10:00–10:05

(Tudalennau 1 – 2)

CLA(5)–27–20 – Papur 1 – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

#### 2.1 SL(5)609 – Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2020

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

#### 2.2 SL(5)618 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) (Blaenau Gwent, Casnewydd, Merthyr Tudful a Phen-y-Bont ar Ogwr etc.) 2020

(Tudalennau 3 – 15)



CLA(5)-27-20 – Papur 2 – Rheoliadau

CLA(5)-27-20 – Papur 3 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)-27-20 – Papur 4 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 22 Medi 2020

CLA(5)-27-20 – Papur 5 – Datganiad ysgrifenedig, 21 Medi 2020

### **3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

10:05–10:15

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

#### **3.1 SL(5)608 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020**

(Tudalennau 16 – 28)

CLA(5)-27-20 – Papur 6 – Adroddiad

CLA(5)-27-20 – Papur 7 – Rheoliadau

CLA(5)-27-20 – Papur 8 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)-27-20 – Papur 9 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 8 Medi 2020

CLA(5)-27-20 – Papur 10 – Datganiad ysgrifenedig, 8 Medi 2020

#### **3.2 SL(5)610 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2020**

(Tudalennau 29 – 41)

CLA(5)-27-20 – Papur 11 – Adroddiad

CLA(5)-27-20 – Papur 12 – Rheoliadau

CLA(5)-27-20 – Papur 13 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)-27-20 – Papur 14 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 11 Medi 2020

CLA(5)-27-20 – Papur 15 – Datganiad ysgrifenedig, 10 Medi 2020

#### **3.3 SL(5)617 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020**

(Tudalennau 42 – 55)

CLA(5)-27-20 – Papur 16 – Adroddiad

CLA(5)-27-20 – Papur 17 – Rheoliadau

CLA(5)-27-20 – Papur 18 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)-27-20 – Papur 19 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 18 Medi 2020

CLA(5)-27-20 – Papur 20 – Datganiad ysgrifenedig, 17 Medi 2020

**3.4 SL(5)614 – Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

(Tudalennau 56 – 81)

CLA(5)-27-20 – Papur 21 – Adroddiad

CLA(5)-27-20 – Papur 22 – Gorchymyn

CLA(5)-27-20 – Papur 23 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)-27-20 – Papur 24 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 17 Medi 2020

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

**3.5 SL(5)583 – Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020**

(Tudalennau 82 – 204)

CLA(5)-27-20 – Papur 25 – Adroddiad

CLA(5)-27-20 – Papur 26 – Gorchymyn

CLA(5)-27-20 – Papur 27 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)-27-20 – Papur 28 – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 18 Medi 2020

CLA(5)-27-20 – Papur 29 – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 10 Medi 2020

CLA(5)-27-20 – Papur 30 – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 15 Gorffennaf 2020

CLA(5)-27-20 – Papur 31 – Datganiad ysgrifenedig, 15 Gorffennaf 2020

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

**3.6 SL(5)615 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2)  
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) (Rhondda Cynon Taf) 2020**

(Tudalennau 205 – 222)

CLA(5)–27–20 – Papur 32 – Adroddiad

CLA(5)–27–20 – Papur 33 – Rheoliadau

CLA(5)–27–20 – Papur 34 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)–27–20 – Papur 35 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 17 Medi 2020

CLA(5)–27–20 – Papur 36 – Datganiad ysgrifenedig, 16 Medi 2020

**3.7 SL(5)616 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws)  
(Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 223 – 254)

CLA(5)–27–20 – Papur 37 – Adroddiad

CLA(5)–27–20 – Papur 38 – Rheoliadau

CLA(5)–27–20 – Papur 39 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)–27–20 – Papur 40 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 17 Medi 2020

**4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r  
Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn  
flaenorol**

10:15–10:20

**4.1 SL(5)588 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol)  
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

(Tudalennau 255 – 257)

CLA(5)–27–20 – Papur 41 – Adroddiad

CLA(5)–27–20 – Papur 42 – Ymateb Llywodraeth Cymru

**5 Papurau i'w nodi**

10:20–10:25

**5.1 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: y Fframwaith Datblygu  
Cenedlaethol**

(Tudalennau 258 – 259)

CLA(5)–27–20 – Papur 43 – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol,  
21 Medi 2020

[Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020–2040](#)

[Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft: Adroddiad ar yr ymgynghoriad](#)

[Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: Rhestr o'r Newidiadau](#)

[Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft: Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig](#)

[Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: Monitro ac adolygu](#)

[Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: Drafft gweithio](#)

## **5.2 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Rheoliadau Deddf y**

**Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020**

(Tudalen 260)

**CLA(5)–27–20 – Papur 44 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 21 Medi 2020**

## **5.3 Gohebiaeth ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Bil Marchnad Fewnol y DU**

(Tudalennau 261 – 263)

**CLA(5)–27–20 – Papur 45 – Llythyr at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, 18 Medi 2020**

**CLA(5)–27–20 – Papur 46 – Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor y Swyddfa**

**Weithredol, Cynulliad Gogledd Iwerddon, at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, 24 Medi 2020**

## **5.4 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar drefniadau ymadael â'r UE**

(Tudalen 264)

**CLA(5)–27–20 – Papur 47 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 24 Medi 2020**

## **6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

10:25

## **7 Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) – trafod yr adroddiad drafft**

10:25–10:40

(Tudalennau 265 – 292)

CLA(5)-27-20 – Papur 48 – Adroddiad drafft

**8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol – trafod materion allweddol**

10:40–10:50

(Tudalennau 293 – 303)

CLA(5)-27-20 – Papur 49 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

CLA(5)-27-20 – Papur 50 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 1 Medi 2020

CLA(5)-27-20 – Papur 51 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol

**9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cam–drin Domestig – trafod materion allweddol**

10:50–11:05

(Tudalennau 304 – 316)

CLA(5)-27-20 – Papur 52 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

CLA(5)-27-20 – Papur 53 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol

**10 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Cynllun y Taliad Sylfaenol a fframwaith deddfwriaethol cymorth gwledig o 2021 ymlaen – trafod yr ymateb**

11:05–11:15

(Tudalennau 317 – 318)

CLA(5)-27-20 – Papur 54 – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 6 Awst 2020

**11 SICM(5)29 – Rheoliadau Gwastraff (Economi Gylchol) (Diwygio) 2020 – trafod yr adroddiad drafft**

11:15–11:25

(Tudalennau 319 – 322)

CLA(5)-27-20 – Papur 55 – Adroddiad drafft

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 5 Hydref 2020**

## Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

28 Medi 2020

### SL(5)609 – Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2020

Gweithdrefn: Negyddol

Mae adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn sicrhau na chaniateir gorfodi ailfynediad neu fforffediad am beidio â thalu rhent mewn perthynas â thenantiaethau busnes perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol ("relevant period"). Mae adran 82(12) o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn diffinio'r "relevant period" fel cyfnod sy'n dechrau ar 26 Mawrth 2020 ac sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2020, neu ar unrhyw ddyddiad diweddarach a bennir mewn rheoliadau a wneir gan yr awdurdod cenedlaethol perthnasol.

Gweinidogion Cymru yw'r "awdurdod cenedlaethol perthnasol" mewn perthynas â Chymru, a gallant felly wneud rheoliadau i ymestyn y "cyfnod perthnasol" i warchodaeth y tu hwnt i 30ain Mehefin 2020, a thrwy hynny gadw'r warchodaeth a ddarperir gan adran 82 y Ddeddf i'r dyddiad diweddarach a nodir yn y rheoliadau.

Estynnodd Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru)(Coronafeirws) 2020 y "cyfnod perthnasol" o 30 Mehefin 2020 hyd 30 Medi 2020.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn y "cyfnod perthnasol" am dri mis arall i 31 Rhagfyr 2020. O ganlyniad, mae'r moratoriwm a ddarperir gan adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 wedi ei estyn ymhellach hyd 31 Rhagfyr 2020.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf y Coronafeirws 2020

**Fe'u gwnaed ar:** 07 Medi 2020

**Fe'u gosodwyd ar:** 09 Medi 2020

**Yn dod i rym ar:** 30 Medi 2020



# **SL(5)618 – The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) (Amendment) (No. 11) (Blaenau Gwent, Bridgend, Merthyr Tydfil and Newport etc.) Regulations 2020**

## **Procedure: Made affirmative**

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) Regulations 2020 (the “principal Regulations”). The amendments—

- designate Blaenau Gwent, Bridgend, and Merthyr Tydfil County Boroughs, and the City and County Borough of Newport, as local health protection areas that are subject to specific restrictions and requirements;
- provide that one of the requirements is that licensed premises must close at 11 p.m. in all local health protection areas (including Caerphilly County Borough);
- provide that it is a reasonable excuse for persons living in accommodation where certain facilities are shared to gather indoors as if they were a single household (this includes houses in multiple occupation and student accommodation);
- make minor amendments to the Welsh language text of regulation 14C of the principal Regulations.

**Parent Act:** Coronavirus Act 2020

**Date Made:** 07 September 2020

**Date Laid:** 09 September 2020

**Coming into force date:** 30 September 2020





*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 1022 (Cy. 227)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11)  
(Blaenau Gwent, Casnewydd,  
Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar  
Ogwr etc.) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau

- 
- (a) yn dynodi Bwrdeistrefi Sirol Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr, a Dinas a Bwrdeistref Sirol Casnewydd, yn ardaloedd diogelu iechyd lleol sy'n

ddarostyngedig i gyfyngiadau a gofynion penodol;

- (b) yn darparu mai un o'r gofynion yw bod rhaid i fangreoedd trwyddedig gau am 11 p.m. ym mhob ardal diogelu iechyd leol (gan gynnwys Bwrdeistref Sirol Caerffili);
- (c) yn darparu ei fod yn esgus rhesymol i bersonau sy'n byw mewn llety lle y rhennir cyfleusterau penodol ymgynnull o dan do fel pe baent yn un aelwyd (mae hyn yn cynnwys tai amlfeddiannaeth a llety myfyrwyr);
- (d) yn gwneud mân ddiwygiadau i destun Cymraeg rheoliad 14C o'r prif Reoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 1022 (Cy. 227)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11)  
(Blaenau Gwent, Casnewydd,  
Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar  
Ogwr etc.) 2020

*Gwnaed am 12.25 p.m. ar 22 Medi 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd  
Cymru am 4.00 p.m. ar 22 Medi 2020*

*Yn dod i rym am 6.00 p.m. ar 22 Medi 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

---

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) (Blaenau Gwent, Casnewydd, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr etc.) 2020 a deuant i rym am 6.00 p.m. ar 22 Medi 2020.

### Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 14, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(2A) Mae hefyd yn esgus rhesymol i ddim mwy na 6 o bobl ymgynnull mewn (unrhyw) fangre o dan do pan fo'r holl bersonau yn y cynulliad—

- (a) yn byw yn yr un fangre, a
- (b) yn rhannu cyfleusterau toiled, ymolchi, bwyta neu goginio gyda'i gilydd.”

(3) Yn rheoliad 14C, yn y testun Cymraeg, yn y ddau le y mae'n digwydd (gan gynnwys yn y pennawd), yn lle “leol” rhodder “lleol”.

(4) Yn Atodlen 4A—

(a) ym mharagraff 1, ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

- “(c) Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent;
  - (d) Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;
  - (e) Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful;
  - (f) Dinas a Bwrdeistref Sirol Casnewydd.”
- ;

---

(1) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/752 (Cy. 169), O.S. 2020/803 (Cy. 176), O.S. 2020/820 (Cy. 180), O.S. 2020/843 (Cy. 186), O.S. 2020/867 (Cy. 189), O.S. 2020/884 (Cy. 195), O.S. 2020/912 (Cy. 204), O.S. 2020/961 (Cy. 215), O.S. 2020/984 (Cy. 221), O.S. 2020/985 (Cy. 222), O.S. 2020/1007 (Cy. 224) ac O.S. 2020/1011 (Cy. 225).

- (b) yn union o flaen paragraff 7, hepgorer y pennawd (“RHAN 3”) a’r is-bennawd oddi tano (“Cyfyngiadau nad ydynt yn gymwys ond mewn cysylltiad â Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf”);
- (c) ym mharagraff 7—
  - (i) mewnosoder y canlynol fel pennawd—

**“Cyfyngiadau ar fangreoedd trwyddedig”**

- (ii) yn is-baragraff (1), yn y geiriau o flaen paragraff (a), yn lle “ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf” rhodder “mewn ardal diogelu iechyd leol”;
- (iii) yn lle is-baragraff (2) rhodder—

“(2) Nid yw is-baragraff (1)—

  - (a) yn caniatáu i’r fangre drwyddedig fod ar agor yn groes i awdurdodiad sydd wedi ei ganiatáu neu ei roi mewn cysylltiad â’r fangre;
  - (b) yn atal gwerthu neu gyflenwi alcohol gan westy neu lety arall fel rhan o wasanaeth ystafell.”;
- (iv) yn lle is-baragraff (3)(a) rhodder—

“(a) ystyr “mangre drwyddedig” yw tafarn, bar (gan gynnwys bar mewn clwb aelodau, gwesty neu lety arall), caffï neu fwyty (gan gynnwys bwyty neu ystafell fwyta mewn clwb aelodau, gwesty neu lety arall) y mae awdurdodiad wedi ei ganiatáu neu ei roi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad ag ef neu â hi.”.

*Mark Drakeford*  
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru  
Am 12.25 p.m. ar 22 Medi 2020

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) (Blaenau Gwent, Casnewydd, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr etc.) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) (Blaenau Gwent, Casnewydd, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr etc.) 2020

**Mark Drakeford**  
**Y Prif Weinidog**

22 Medi 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau sy'n cael eu gorfodi yn awr mewn perthynas â Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Bwrdeistref Dinas a Sir Casnewydd yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r cyfyngiadau a'r gofynion a orfodir gan y Rheoliadau erbyn 24 Medi, ac o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl hynny.

### Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae parhau i addasu'r gofynion a wnaed gan y Rheoliadau gwreiddiol drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur. Mae'r darpariaethau hyn yn cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae'r Rheoliadau'n gosod cyfyngiadau a gofynion mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol unigol, a fydd yn awr at ddibenion y prif Reoliadau hefyd yn cynnwys Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr,

Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Bwrdeistref Dinas a Sir Casnewydd, yn ogystal â Bwrdeistref Sirol Caerffili a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Yn benodol, mae'r cyfyngiadau a'r gofynion hyn yn gwahardd gadael yr ardaloedd neu aros i ffwrdd oddi wrthynt neu fynd iddynt heb esgus rhesymol; yn darparu nad oes unrhyw aelwyd o fewn yr ardaloedd yn cael ei thrin fel rhan o aelwyd estynedig ac yn gwahardd aelwydydd o'r fath rhag ffurfio aelwydydd estynedig; ac yn ei gwneud yn ofynnol i fangreoedd trwyddedig gau erbyn 11pm bob dydd. Bydd, neu gall, y cyfyngiadau a'r gofynion hyn gyffwrdd â hawliau o dan Erthygl 8 (yr hawl i barch am y teulu a bywyd preifat); Erthygl 9 (rhyddid crefydd, cydwybod a chred); Erthygl 11 (rhyddid gwybodaeth); Erthygl 14 (gwahardd gwahaniaethu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (Diogelu Eiddo). Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y gellir cyfiawnhau'r ymyrraeth, i'r graddau bod y cyfyngiadau a'r gofynion a orfodir gan y Rheoliadau yn ymwneud â'r hawliau hynny neu'n ymyrryd arnynt, gan fod yr ymyrraeth yn anelu at y nod dilys o ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o'r coronafeirws a'i ledaeniad yn yr ardaloedd hyn ac yn ehangach a'i bod yn gymesur i'r nod hwnnw. Mae'r gofynion i beidio â gadael yr ardaloedd neu fynd iddynt yn ddarostyngedig i esgus rhesymol gan berson i wneud hynny, sy'n cynnwys gallu defnyddio gwasanaethau hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus a darparu gofal i bobl sy'n agored i niwed. At hynny, rhaid i Weinidogion Cymru, erbyn 24 Medi, adolygu'r angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau a'u cymesuredd o ran yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, a gwneud hynny o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn caniatáu i hyd at chwech o bobl sy'n byw mewn llety a rennir mewn mangreoedd ymgynnull o dan do. Bydd hyn yn galluogi'r rhai mewn llety myfyrwyr a rennir a mathau eraill o lety i ymgynnull, er enghraifft wrth ddefnyddio cyfleusterau a rennir yn eu cartrefi. Bydd yn helpu pobl i arfer eu hawliau o dan Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd teuluol a phreifat), er o fewn cyd-destun cyfyngedig, gan adlewyrchu'r risgiau a berir i iechyd y cyhoedd drwy ryngweithio cymdeithasol ehangach o dan do.

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn ar gael yn y Memorandwm Esboniadol i'r prif Reoliadau.

### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Cafodd y prif Reoliadau eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).



Cafodd y prif Reoliadau eu diwygio<sup>1</sup> gydag effaith o 8 Medi 2020 i gyflwyno cyfyngiadau mewn perthynas ag 'ardal diogelu iechyd leol', a rhoi'r cyfyngiadau hynny ar waith yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r Rheoliadau hyn yn awr yn estyn y cyfyngiadau i ardal diogelu iechyd leol eraill, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Bwrdeistref Dinas a Sir Casnewydd. Effaith hyn mewn perthynas â'r ardaloedd newydd hyn yw:

- darparu na chaiff unrhyw aelwyd o fewn pob un o'r ardaloedd ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig a gwaherddir aelwyd o'r fath rhag ffurfio aelwyd estynedig;
- gwahardd personau sy'n byw ym mhob un o'r ardaloedd rhag gadael yr ardal neu aros i ffwrdd oddi wrthi heb esgus rhesymol;
- ei gwneud yn ofynnol i drigolion yr ardal weithio gartref, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny;
- gwahardd pobl o'r tu allan i bob un o'r ardaloedd rhag mynd yno heb esgus rhesymol. Nid yw mynd i'r ardal ar gyfer gwaith yn esgus rhesymol, os yw'n rhesymol ymarferol i'r gwaith hwnnw gael ei wneud y tu allan i'r ardal.
- ei gwneud yn ofynnol i safleoedd trwyddedig gau erbyn 11pm bob nos a pheidio ag agor cyn 6am unrhyw fore. Yn y cyd-destun hwn, ystyr "mangreoedd trwyddedig" yw tafarndai, bariau (gan gynnwys bariau mewn clybiau aelodau, gwestai neu lety arall), caffis a bwytai (gan gynnwys bwytai neu ystafelloedd bwytai mewn clybiau aelodau, gwestai neu lety arall) y caniatawyd neu y rhoddwyd awdurdodiad mewn perthynas â hwy i werthu neu gyflenwi alcohol.

Yn ogystal, bydd y cyfyngiadau ar oriau agor safleoedd trwyddedig bellach yn gymwys ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r prif Reoliadau, i ddarparu ei fod yn esgus rhesymol i ddim mwy na 6 pherson sy'n byw mewn llety lle y caiff cyfleusterau penodol eu rhannu, ymgynnull o dan do fel pe baent yn un aelwyd (mae hyn yn cynnwys tai mewn llety amlfeddiannaeth a llety myfyrwyr.

Daw'r Rheoliadau i rym am 6.00 p.m. ar 22 Medi 2020. Rhaid adolygu'r cyfyngiadau a'r gofynion a gyflwynir gan y diwygiadau hyn mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol ar 24 Medi neu cyn y dyddiad hwnnw, ac o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau technegol a chanlyniadol i'r prif Reoliadau.

---

<sup>1</sup> Gweler Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) (Caerffili) 2020 OS 2020/961 (Cy. 215)

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau technegol a chanlyniadol i'r prif Reoliadau.

Mae'n hollbwysig cymryd pob mesur rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Aseiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r Prif Swyddogion Meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod cyflwyno'r gofynion a'r cyfyngiadau hyn drwy wneud y diwygiadau i'r prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y mae'r prif Reoliadau'n ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## **5. Ymgynghori**

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Yn ehangach, cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau drwy ddarlleniadau gwybodaeth i'r cyhoedd parhaus ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a minnau. Wrth wneud y Rheoliadau heddiw fe fu trafodaethau rheolaidd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac â'r awdurdodau lleol a chyrrff y GIG ar gyfer yr ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn awr yn ogystal â Chaerffili a Rhondda Cynon Taf.

Ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Fe wnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol esbonio mewn cynhadledd i'r wasg ddoe fod bwriad i osod y cyfyngiadau a'r gofynion a gyflawnir drwy'r Rheoliadau hyn; mae'r newidiadau arfaethedig wedi cael cyhoedduswydd eang gan y cyfryngau.

## **6. Aseiad effaith rheoleiddiol ac aseidiadau eraill**

Ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder fel rhan o'r ymateb parhaus i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.



Elin Jones AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

22 Medi 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) (Blaenau Gwent, Casnewydd, Merthyr Tudful a Phen-y-Bont ar Ogwr etc.) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) (Blaenau Gwent, Casnewydd, Merthyr Tudful a Phen-y-Bont ar Ogwr etc.) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 6.00 pm heddiw. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 19 Hydref 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Medi 2020.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

---

**TEITL** Diweddariad ar gyfyngiadau coronafeirws lleol

**DYDDIAD** 21 Medi 2020

**GAN** Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Rydym wedi cyflwyno cyfyngiadau lleol ym **mwrdeistref Caerffili** ac yn **Rhondda Cynon Taf** i reoli cynnydd cyflym mewn achosion o'r coronafeirws yn yr ardaloedd hynny.

Rydym wedi bod yn monitro'r sefyllfa yn agos ym **Mlaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful** a **Chasnewydd** – mae'r cyfraddau yn yr ardaloedd hynny yn awr yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol ac arbenigwyr iechyd y cyhoedd, sydd wedi bod yn cyfarfod yn ddyddiol i adolygu'r sefyllfa ym mhob ardal a phenderfynu pa fesurau sydd eu hangen i reoli lledaeniad y coronafeirws. Yn llawer o'r ardaloedd hyn, mae camau lleol eisoes wedi'u cymryd gan yr awdurdodau lleol, gan gynnwys cyfyngu ar ymweliadau i gartrefi gofal, annog pobl i weithio gartref os yw hynny'n bosibl a gofyn i bobl gyfyngu ar deithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Ond oherwydd bod achosion wedi parhau i gynyddu, mae angen inni yn awr gyflwyno cyfyngiadau lleol ym mhob un o'r ardaloedd hyn i ddiogelu iechyd pobl a rheoli lledaeniad coronafeirws.

O 6pm ddydd Mawrth 22 Medi, daw'r cyfyngiadau canlynol i rym ar gyfer pobl sy'n byw yn ardaloedd awdurdod lleol **Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful** a **Chasnewydd**:

- Ni fydd pobl yn cael mynd i mewn i ardal yr awdurdod lleol na gadael yr ardal heb esgus rhesymol, fel teithio i'r gwaith neu i dderbyn addysg.
- Dim ond yn yr awyr agored y bydd pobl yn cael cwrdd. Ni fydd pobl yn cael cwrdd ag aelodau o'u haelwyd estynedig o dan do na ffurfio aelwyd estynedig.
- Bydd rhaid i bob eiddo trwyddedig gau am 11pm.
- Mae'n rhaid i bawb dros 11 oed wisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus o dan do – fel yng ngweddill Cymru.

Byddwn yn adolygu'r mesurau hyn yn gyson a byddant yn cael eu hadolygu'n ffurfiol ymhen pythefnos.

O 6pm ddydd Mawrth 22 Medi, byddwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod pob eiddo trwyddedig ym **mwrdeistref Caerffili** yn cau am 11pm.

Cyflwynwyd y cyfyngiadau cychwynnol ym **mwrdeistref Caerffili** bron i bythefnos yn ôl, a bydd y cyfyngiadau'n cael eu hadolygu'n ffurfiol yr wythnos hon. Mae'r cyfraddau saith diwrnod ym mwrdeistref Caerffili wedi dangos peth lleihad, sy'n gadarnhaol, ac rydym yn ffyddiog bod y cyfyngiadau yn cael effaith.

Bydd y cyfyngiad ychwanegol ar eiddo trwyddedig yn cryfhau'r sefyllfa ymhellach ac yn arwain at gysondeb ar draws yr ardaloedd sy'n wynebu cyfyngiadau lleol.

Mae ein gallu i wneud gwahaniaeth i ledaeniad y feirws yn nwylo pob un ohonom – dim ond gyda'n gilydd y gallwn ni lwyddo. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i wneud y dewisiadau cywir a dilyn y mesurau a fydd yn ein cadw ni a'n hanwyliaid yn ddiogel rhag y feirws heintus a niweidiol hwn:

- Mae angen inni gadw pellter oddi wrth ein gilydd.
- Mae angen inni olchi ein dwylo yn aml.
- Mae angen inni weithio gartref os yw'n bosibl.
- Mae angen inni wisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus o dan do.
- Mae angen inni aros gartref os oes gennym symptomau a phan fyddwn ni'n aros am ganlyniad prawf.
- Ac mae angen inni gadw at unrhyw gyfyngiadau sydd ar waith yn lleol.

Bydd cyfran fawr o'r boblogaeth yn Ne Ddwyrain Cymru yn awr yn byw o dan gyfyngiadau coronafeirws lleol.

Bydd y Prif Weinidog a minnau'n galw cyfarfod brys gyda'r awdurdodau lleol, byrddau iechyd a lluoedd heddlu yn Ne Cymru – o Ben-y-bont ar Ogwr draw at y ffin â Lloegr – i drafod y sefyllfa ranbarthol yn ehangach ac a oes angen mesurau pellach i ddiogelu iechyd pobl, atal lledaeniad y coronafeirws a diogelu Cymru.

Rwy'n gobeithio gwneud datganiad llafar yfory i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y datblygiadau diweddaraf.

# Eitem 3.1

## SL(5)608 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020

### Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ("gwledydd a thiriogaethau esempt"). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt er mwyn hepgor tiriogaethau Santorini, Serifos a Tinos yng Ngwlad Groeg, ac yn gwneud diwygiad sy'n cywiro sillafiad Mykonos. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn ychwanegu digwyddiadau at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig yn Atodlen 4 y mae'r personau sy'n cymryd rhan ynddynt wedi'u hesemptio neu eu heithrio o'r gofyniad i ynysu.

### Gweithdrefn

Negyddol

### Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

#### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad a ganlyn am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 8 Medi 2020:



*mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.*

## **Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**

Dim.

## **Ymateb gan Lywodraeth Cymru**

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr cyfreithiol**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**18 Medi 2020**



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

Welsh Parliament

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Tudalen y pecyn 17

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 962 (Cy. 216)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Coronafeirws, Teithio  
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)  
(Rhif 9) 2020**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840) (Cy. 185);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/868) (Cy. 190);



- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/886) (Cy. 196);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/917) (Cy. 205);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020 (O.S. 2020/944) (Cy. 210).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor tiriogaethau Santorini, Serifos a Tinos yng Ngwlad Groeg o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt. Mae'r rheoliad hwn hefyd yn gwneud diwygiad sy'n cywiro sillafiad Mykonos.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y tiriogaethau hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae'r rheoliad hwn hefyd yn diwygio rheoliad 3(2)(a) o'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020 i gywiro sillafu cyfeirad at Mykonos.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu digwyddiadau pellach at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 962 (Cy. 216)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Coronafeirws, Teithio  
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)  
(Rhif 9) 2020**

*Gwnaed* 8 Medi 2020

*Yn dod i rym* am 4.00 a.m. ar 9 Medi 2020

*Gosodwyd* gerbron *Senedd*  
*Cymru* am 11.00 a.m. ar 9 Medi 2020

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**RHAN 1**

**Cyffredinol**

**Enwi, dod i rym a dehongli**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 9 Medi 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd

---

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)  
2020(1).

## RHAN 2

Diwygiadau i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau  
esempt yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio  
Rhyngwladol

### Diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt

2. Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), yn y cofnod sy'n ymwneud â Gwlad Groeg—

- (a) yn lle "Mykanos" rhodder "Mykonos";
- (b) ar ôl "Paros," mewnosoder "Santorini, Serifos, Tinos".

### Darpariaeth drosiannol etc mewn cysylltiad â rheoliad 2

3.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person ("P")—

- (a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 9 Medi 2020 neu wedi hynny, a
- (b) wedi bod yn Santorini, Serifos neu Tinos ddiwethaf—
  - (i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a
  - (ii) cyn 4.00 a.m. ar 9 Medi 2020.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod yn Santorini, Serifos neu Tinos, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn tiriogaeth o'r fath.

(3) Yn rheoliad 3(2)(a) o'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8)(2) 2020, yn lle "Mykanos" rhodder "Mykonos"

---

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132) a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205) ac O.S. 2020/944 (Cy. 210).

(2) O.S. 2020/944 (Cy. 210).

## RHAN 3

Diwygiadau i'r rhestr o ddigwyddiadau  
chwaraeon yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio  
Rhyngwladol

### **Ychwanegiadau at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig**

4.—(1) Mae Atodlen 4 (digwyddiadau chwaraeon penodedig) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 2, ar y diwedd mewnosoder—

“(d) Bwrdd Criced Cymru a Lloegr - y T20 Blast;

(e) Bwrdd Criced Cymru a Lloegr - Cwpan Rachael Heyhoe Flint.”

(3) Ym mharagraff 10, ar y diwedd mewnosoder—

“(f) Matchroom - Twrnamaint Snwcer Cynghrair y Bencampwriaeth.”

(4) Ym mharagraff 14, ar y diwedd mewnosoder—

“(f) Teitl Pencampwriaeth Pwysau Bantam Uwch Ewropeaidd Sefydliad Bocsio'r Byd;

(g) Teitl Pencampwriaeth Pwysau Ysgafn Uwch y Byd.”

(5) Ar y diwedd mewnosoder—

“**18.** Gymnasteg - Gornest 4-Ffordd Dan 18 Gymnasteg Prydain.

**19.** Crefft Ymladd Cymysg - Cyfres “The Trilogy” Cage Warriors.”

*Vaughan Gething*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,  
un o Weinidogion Cymru  
8 Medi 2020

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020.

**Vaughan Gething**  
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

9 Medi 2020

## 1. Disgrifiad

Yn ddarostyngedig i esemptiadau penodedig, tan 10 Gorffennaf 2020, mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") yn ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon) ddarparu ei fanylion cyswllt a gwybodaeth am ei daith – ac ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau.

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 er mwyn (ymhlith pethau eraill) cyflwyno esemptiad rhag y gofyniad i ynysu ar gyfer teithwyr sy'n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodol, a elwir yn "wledydd esempt".

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn gweithredu newidiadau a nodwyd gan y Gydganolfan Bioggiogelwch yn statws risg iechyd cyhoeddus rhai gwledydd neu diriogaethau, fel y bo'n angenrheidiol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio'r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

### *Dod i rym*

Yn unol ag adrannau 4(1) a 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bydd y Rheoliadau wedi dod i rym cyn eu gosod gerbron y Senedd.

### *Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol aciwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o'r gwledydd a'r tiriogaethau esempt na fyddai'n ofynnol i deithwyr hunanynysu ar ôl cyrraedd Cymru o'r manau hynny – yn fwyaf diweddar ar 4 Medi 2020.

Mae'r cyngor a gafwyd bellach gan y Gydganolfan Biaddiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws yng Ngwlad Groeg yn awr wedi'i gatgoreiddio fel risg canolig. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn ystyried bod risg uwch i iechyd y cyhoedd yn sgil teithwyr sy'n dychwelyd i'r DU o grwpiau o ynysoedd Gwlad Groeg sydd ar wasgar yn ddaearyddol. Ar sail y cyngor hwn, mae'r Llywodraeth o'r farn y dylid cyflwyno gofynion ynysu yn awr ar gyfer teithwyr sy'n dod i Gymru o ynysoedd Groeg Santorini, Serifos a Tinos.

Gwneir diwygiad hefyd i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn ychwanegu digwyddiad chwaraeon arall at y rhestr yn Atodlen 4 y mae'r rhai sy'n cymryd rhan ynddynt yn cael eu heithrio rhag y gofynion ynysu.

Bydd y diwygiadau yn dod i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin o'r gwledydd neu diriogaethau hyn am 4:00am neu wedi hynny ar 9 Medi 2020. Ni fydd yr un o'r diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofynion o dan y Rheoliadau hynny i bersonau sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin cyn i'r diwygiadau ddod i rym.

## Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### Cynghorwyr Cyfreithiol

### Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

23 Medi 2020



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

Welsh Parliament

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Tudalen y pecyn 58



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 1004 (Cy. 223)**

**CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

**Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio  
(Addasiadau a Datgymhwyso Dros  
Dro) (Rhif 2) (Cymru)  
(Coronafeirws) 2020**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ("Gorchymyn 2012") a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 ("Gorchymyn 2016"). Mae'n diwygio darpariaethau yn y Gorchymynion hynny er mwyn estyn y cyfnod pan fo gofynion penodol wedi eu haddasu neu eu datgymhwyso.

Mae erthygl 2 yn diwygio erthygl 2G(2)(b) o Gorchymyn 2012 er mwyn estyn cyfnod yr argyfwng pan fo'r gofynion cyhoedduswydd a hysbysu ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio wedi eu haddasu. Mae hefyd yn estyn cyfnod yr argyfwng at ddibenion yr amser sydd gan gynghorau cymuned i wneud sylwadau ar geisiadau yr hysbysir hwy amdanynt. Daw cyfnod yr argyfwng i ben ar 8 Ionawr 2021.

Mae erthygl 3 yn diwygio erthygl 12(6A)(b) o Gorchymyn 2016 er mwyn estyn y cyfnod pan na fo copiâu caled o geisiadau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol yn ofynnol. Daw'r cyfnod hwnnw i ben ar 8 Ionawr 2021.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru).

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 1004 (Cy. 223)**

**CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

**Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio  
(Addasiadau a Datgymhwyso Dros  
Dro) (Rhif 2) (Cymru)  
(Coronafeirws) 2020**

*Gwnaed* 16 Medi 2020

*Gosodwyd* gerbron *Senedd*  
*Cymru* 17 Medi 2020

*Yn dod i rym* 18 Medi 2020

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 61Z(8) a (9), 62(11), 62R a 333(4B) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1), a thrwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 59, 62(1) a (2), 71(1), (2)(a) a (2A) a 333(7) o'r Ddeddf honno(2) sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(3) (fel y'u cymhwysir yn

- 
- (1) 1990 p. 8. Mewnosodwyd adran 61Z gan adran 17(2) o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) ("Deddf 2015"). Mewnosodwyd adran 62(11) gan adran 17(3) o Ddeddf 2015 (gweler hefyd adran 59(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") (y cyfeirir ati yn y troednodyn nesaf) sy'n darparu mai ystyr gorchymyn datblygu mewn perthynas â Chymru yw gorchymyn datblygu a wneir gan Weinidogion Cymru). Mewnosodwyd adran 62R gan adran 25 o Ddeddf 2015. Amnewidiwyd adran 333(4B) gan adran 55 o Ddeddf 2015 a pharagraff 6(3) o Atodlen 7 iddi. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.
- (2) Diwygiwyd adran 59(2) gan adran 1 o Ddeddf Twf a Seilwaith 2013 (p. 27) a pharagraff 4 o Atodlen 1 iddi, a chan adran 27 o Ddeddf 2015 a pharagraff 3 o Atodlen 4 iddi. Mewnosodwyd adran 59(4) gan adran 55 o Ddeddf 2015 a pharagraff 5 o Atodlen 7 iddi. Gweler adran 71(4) am ystyr "prescribed". Diwygiwyd adran 71 gan adran 16(2) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.
- (3) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); gweler y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf 1990. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd

achos adran 62(1) gydag addasiadau gan Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymhwysio Deddfiadau) (Cymru) 2016(1), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

### **Enwi a chychwyn**

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwysio Dros Dro) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2020.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Medi 2020.

### **Ymgynghori cyn ymgeisio: rhoi gwybodaeth ar gael**

2.—(1) Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(2) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2G(2)(b), yn lle “gyda 18 Medi 2020” rhodder “gydag 8 Ionawr 2021”.

### **Datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol: gwneud ceisiadau**

3.—(1) Mae Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016(3) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 12(6A)(b), yn lle “gyda 18 Medi 2020” rhodder “gydag 8 Ionawr 2021”.

*Julie James*

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o  
Weinidogion Cymru  
16 Medi 2020

---

adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

(1) O.S. 2016/54 (Cy. 24).

(2) O.S. 2012/801 (Cy. 110), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/59 (Cy. 29), O.S. 2017/567 (Cy. 136) ac O.S. 2020/514 (Cy. 121); mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

(3) O.S. 2016/55 (Cy. 25), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/514 (Cy. 121); mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio  
(Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2020. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie James AC  
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

17 Medi 2020

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (y "DMPWO") yn darparu ar gyfer gweithdrefnau cysylltiedig â cheisiadau cynllunio, ymgynghoriadau cysylltiedig â cheisiadau cynllunio, penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio, apeliadau, gorchymynion datblygu lleol, tystysgrifau datblygiad neu ddefnydd cyfreithlon, cynnal a chadw cofrestrau o cheisiadau cynllunio a materion cysylltiedig.
- 1.2 Mae Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (y "DNSPWO") yn gwneud darpariaeth ar gyfer sut mae Gweinidogion Cymru yn delio â cheisiadau am ganiatâd cynllunio yng nghyswllt Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ("DNS").
- 1.3 Daeth Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Datgymhwyso ac Addasiadau Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 ("Gorchymyn cyntaf 2020") i rym ar 19 Mai 2020 ac mae'n addasu neu'n datgymhwyso gofynion penodol yn y DMPWO a'r DNSPWO yng nghyswllt y cyfnod sy'n dechrau ar ddyddiad dod i rym y Gorchymyn ac yn dod i ben ar 18 Medi. Mae'r Gorchymyn yn gwneud y canlynol yn benodol:

#### *Y weithdrefn cyn ymgeisio ar gyfer datblygiadau mawr*

- Mewn cysylltiad â'r ymgynghoriad cyn ymgeisio (y mae'n rhaid ei gynnal cyn cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau penodol a elwir yn ddatblygiadau mawr), mae'r gofyniad sy'n nodi bod rhaid sicrhau bod copïau o ddogfennau cysylltiedig â chais cynllunio arfaethedig ar gael i'w harchwilio yn lleol wedi cael ei ddisodli gan ofyniad sy'n nodi bod rhaid i'r dogfennau hyn fod ar gael ar wefan neu fod copi caled ohonynt yn cael ei ddarparu ar gais.
- Mae newidiadau sy'n adlewyrchu'r hyn a nodir uchod wedi cael eu gwneud i'r hysbysiadau safleoedd a'r llythyrau angenrheidiol i berchnogion a meddianwyr tir cyffiniol, yn ogystal â hysbysiadau i ymgynghoreion yn y gymuned. Os gwneir cais am gopïau caled o unrhyw ddogfennau, rhaid peidio â chyflwyno cais cyn pen 14 diwrnod i'r dyddiad yr anfonir y ddogfen ddiwethaf.
- Mae'n rhaid i adroddiad yr ymgynghoriad cyn ymgeisio gynnwys cadarnhad bod y gofynion, sy'n ymwneud â sicrhau bod gwybodaeth am y cais arfaethedig ar gael ar wefan a bod copïau caled o'r wybodaeth hon yn cael eu darparu ar gais, wedi cael eu bodloni. Mae angen cynnwys datganiad sy'n nodi a gafwyd ceisiadau am gopïau caled hefyd.

### *Amser i gynghorau cymuned ymateb i hysbysiadau*

- Mae'r amser sydd gan gynghorau cymuned i ymateb i geisiadau cynllunio y rhoddir gwybod iddyn nhw amdanynt wedi cael ei ymestyn o 14 diwrnod i 21 diwrnod.

### *Cyflwyno copi caled o geisiadau ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol*

- Mae'r gofyniad presennol yn y DNSPWO, sy'n nodi bod rhaid cyflwyno copi caled o gais am ganiatâd cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol lle bo cais wedi cael ei gyflwyno'n electronig, wedi cael ei ddatgymhwyso.

1.4 Mae Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 yn estyn y cyfnod pan fydd y gweithdrefnau dros dro'n gymwys hyd 8 Ionawr 2021.

## **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

2.1 Yn unol ag adran 11A(4) Deddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, hysbyswyd y Llywydd y daw'r Gorchymyn i rym lai na 21 diwrnod o'r diwrnod cyflwyno gerbron.

2.2 Mae gofyniad i'r Gorchymyn ddod i rym ar 18 Medi 2020 i sicrhau parhad, a chadw'r darpariaethau a gyflwynwyd gan Orchymyn cyntaf 2020 a ddaw i ben ar 18 Medi 2020.

2.3 Bydd peidio â dod â'r Gorchymyn i rym erbyn y dyddiad hwn yn golygu na fydd parhad i'r mesurau a gyflwynwyd gan Orchymyn cyntaf 2020 i gynorthwyo â pharhau'r weithdrefn ymgynghori cyn ymgeisio, ymgynghori â chynghorau cymuned ar geisiadau cynllunio a chyflwyno ceisiadau DNS. Byddai hynny'n debygol o arwain at gronni mwy a mwy o geisiadau cynllunio sy'n aros i gael eu cyflwyno. Gallai hyn gael effaith ar y sector adeiladu a'r economi, yn ogystal â goblygiadau economaidd a chymdeithasol tymor hwy. Credir ei bod yn angenrheidiol peidio â glynu wrth y confensiwn 21 diwrnod, a bod modd cyfiawnhau hyn yn yr achos hwn.

## **3. Y cefndir deddfwriaethol**

3.1 Mae Adran 61Z (8) a (9) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth am ymgynghoriad, neu yng nghyswllt ymgynghoriad, y mae'n rhaid ei gynnal mewn cysylltiad â cheisiadau am ddatblygiadau a nodir mewn gorchymyn datblygu. (Caiff datblygiad mawr ei nodi at y dibenion hyn yn erthygl 2B(1) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ac fe ddiffinnir datblygiad mawr yn erthygl 2 o'r un gorchymyn.)

- 3.2 Mae Adran 62(11) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy orchymyn datblygu am adroddiadau ymgynghori cyn ymgeisio.
- 3.3 Mae Adran 62R yn galluogi gorchmynion datblygu i wneud darpariaethau am geisiadau am ganiatâd cynllunio a gyflwynir i Weinidogion Cymru.
- 3.4 Mae Adran 333(4B) o Ddeddf 1990 yn galluogi darpariaeth wahanol ar gyfer dibenion, achosion ac ardaloedd gwahanol.
- 3.5 Mae'r pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 59 (pŵer i wneud gorchmynion datblygu), 62(1) a (2) (darpariaethau ar gyfer ceisiadau am ganiatâd cynllunio), 71(1), (2)(a), (2A) (ymgyngori ynghylch ceisiadau am ganiatâd cynllunio) a 333(7) (pŵer i amrywio gorchymyn) o Ddeddf 1990, i'r graddau y mae modd eu gweithredu yng nghyswllt Cymru, wedi cael eu trosglwyddo ac maent bellach wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru yn unol â Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (S.I. 1999/672), erthygl 2 a'r cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
- 3.6 Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162, a pharagraff 20 o Atodlen 11, o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
- 3.7 Mae Adran 62(1) wedi cael ei defnyddio gydag addasiadau gan Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymhwysio Deddfiadau) (Cymru) 2016.
- 3.8 Mae'r Gorchymyn hwn yn cael ei wneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

#### **4. Diben y darpariaethau a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael**

- 4.1 Mae argyfwng y COVID-19 yn parhau ledled y Deyrnas Unedig. Er bod gweithleoedd, adeiladau cyhoeddus, swyddfeydd cynghorau a chanolfannau cymunedol bellach yn cael agor yn gyfreithlon, mae llawer ohonynt yn parhau ar gau neu o dan gyfyngiadau mynediad.
- 4.2 Hefyd, er bod y rhan fwyaf o gyfyngiadau ar deithio wedi'u codi, effaith gosod cyfyngiadau lleol a'r posibilrwydd am fwy ohonynt yn y dyfodol agos fel ymateb i'r cynnydd yn lledaeniad COVID-19, fydd ailosod cyfyngiadau ar symudiadau.
- 4.3 Mae darpariaethau Gorchymyn cyntaf 2020 yn dal yn angenrheidiol felly, er mwyn gallu parhau i gynnal y system gynllunio yng Nghymru.
- 4.4 Nod Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwysio Dros Dro) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 yw estyn y cyfnodau a ddynodir yng Ngorchymyn cyntaf 2020 hyd 8 Ionawr 2021. Disgrifir cwmpas y darpariaethau yn rhan 1. Gweler isod eu pwrpas:

### *Gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio*

- 4.5 Fel rhan o'r mesurau a gyflwynwyd fel rhan o'r ymateb parhaus i COVID-19, cafodd pob adeilad cyhoeddus nad yw'n hanfodol ei gau, ac ni chaniateir teithio'n ddianghenraid. O ganlyniad i hyn, mae'n anodd i ddatblygwyr gydymffurfio ag erthygl 2C(1)(b) y DMPWO.
- 4.6 Mae'n rhaid cwblhau'r ymgynghoriad cyn ymgeisio cyn gallu cyflwyno ceisiadau ar gyfer datblygiadau mawr i Awdurdodau Cynllunio Lleol.
- 4.7 Nod y newidiadau i ddarpariaethau'r weithdrefn cyn ymgeisio, a ddisgrifir yn adran 1 uchod, yw galluogi datblygwyr i sicrhau bod gwybodaeth am ddatblygiadau mawr arfaethedig ar gael yn lleol mewn modd ymarferol tra bo cyfyngiadau'r Coronafeirws yn amharu ar hyn, er mwyn sicrhau bod partïon â buddiant yn cael cyfle i ystyried y cais a rhoi sylwadau os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Er mwyn cynnwys cymaint o bobl â phosib, bydd yr wybodaeth ar gael yn electronig neu ar ffurf copi caled ar gais.
- 4.8 Bydd cwblhau'r broses cyn ymgeisio hon yn galluogi datblygwyr i gyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr, gan atal mwy a mwy o geisiadau cynllunio rhag cronni wrth iddynt aros i gael eu hystyried. Os bydd y ceisiadau'n cael eu cymeradwyo, bydd y sector adeiladu yn gallu eu rhoi ar waith cyn gynted ag y bydd y cyfyngiadau'n cael eu codi, gan leihau'r difrod economaidd a chymdeithasol tymor hwy fydd yn cael ei achosi.

### *Sylwadau gan gynghorau cymuned cyn gwneud penderfyniad ynghylch ceisiadau*

- 4.9 Cynghorau cymuned yw'r haen o lywodraeth sydd ar lawr gwlad yng Nghymru. Mae gan gynghorau cymuned ran bwysig i'w chwarae fel y cyswllt lleol â chymunedau, er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'r broses cynllunio a bod yn rhan ohoni.
  - 4.10 Drwy ymestyn y cyfnod a ganiateir i gyflwyno sylwadau ar geisiadau y rhoddir gwybod iddyn nhw amdanynt, y bwriad yw y bydd hyn yn lleddfu'r anawsterau mae cynghorau cymuned yn eu hwynebu o ran cynnal cyfarfodydd rheolaidd o ganlyniad i'r mesurau rheoli a gyflwynwyd fel rhan o'r ymateb i COVID-19.
- Dileu'r gofyniad sy'n nodi bod rhaid cyflwyno copi caled o gais cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol*
- 4.11 Caiff ceisiadau ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol eu cyflwyno'n electronig fel arfer, fodd bynnag, pan wneir cais o'r fath, mae'n ofynnol cyflwyno copi caled i Weinidogion Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol. O ganlyniad i'r cyfyngiadau parhaus mewn ymateb i COVID-19, mae adeiladau cyhoeddus nad ydynt yn hanfodol wedi cau a does dim staff i dderbyn copïau caled o geisiadau mewn swyddfeydd perthnasol, felly, mae'n gallu bod yn anodd dilysu hyn.



4.12 Diben diwygio'r DNSPWO yw datgymhwyso elfen o'r weithdrefn bresennol y mae'n anodd gwirio cydymffurfedd â hi tra bo cyfyngiadau COVID-19 ar waith.

## **5. Ymgynghori**

- 5.1 Oherwydd natur brys y diwygiad hwn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ynghylch y cynigion hyn.
- 5.2 Mae angen rhoi'r diwygiad ar waith ar unwaith er mwyn estyn y mesurau lliniaru a roddwyd yn eu lle i reoli effeithiau cyfyngiadau COVID-19 o ran teithio ac agor adeiladau ar rannau penodol o'r system gynllunio. Bydd y diwygiad yn golygu bod modd i ddatblygwyr barhau i gyflwyno ceisiadau cynllunio, gan atal achosion rhag cronni, a galluogi caniatâd i gael ei roi wrth i gyfyngiadau COVID-19 gael eu codi.

## **RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

### **1. Ymgynghoriad cyn ymgeisio**

#### **Opsiynau**

1.1. Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried:

- Opsiwn 1 - Gwneud dim byd h.y. dim newidiadau deddfwriaethol.
- Opsiwn 2 - Cyflwyno Gorchymyn Diwygio i estyn y cyfnod argyfwng a ddynodir yn Erthygl 2G(2), gan barhau i ddileu'r gofyniad sy'n nodi bod rhaid i ddatblygwyr sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'w harchwilio mewn lleoliad sy'n agos i'r datblygiad arfaethedig tan 8 Ionawr 2021.

#### **Opsiwn 1 - Gwneud dim byd**

#### **Disgrifiad**

1.2. Daw'r darpariaethau a fewnosodwyd i'r DMPWO gan Orchymyn cyntaf 2020 i ben ar 18 Medi. Byddai datblygwyr yn gorfod cydymffurfio'n llawn ag Erthygl 2C o'r DMPWO cyn cyflwyno cais cynllunio dilys ar gyfer datblygiad mawr. Fodd bynnag, tra bydd adeiladau sydd fel arfer yn agored i'r cyhoedd yn parhau ar gau oherwydd COVID-19, byddai datblygwyr yn ei chael hi'n anodd cydymffurfio'n llawn.

#### **Costau**

#### Llywodraeth Cymru

1.3. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn wynebu cost ariannol.

- 1.4. Fodd bynnag, byddai'n cael effaith ganlyniadol ar gyflawni datblygiadau strategol lleol a chenedlaethol yn sgil yr oedi fyddai'n anochel oherwydd bod datblygwyr methu cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio'n llawn, wedyn cyflwyno cais dilys ar gyfer datblygiad mawr. Ystyr datblygiad mawr yw datblygiad sy'n cynnwys un neu fwy o'r canlynol:
- a) cloddio a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion gweithio mwynau;
  - b) datblygiad gwastraff;
  - c) darparu tai annedd lle mae'r canlynol yn berthnasol—
    - i. bydd 10 neu fwy o dai annedd yn cael eu darparu; neu
    - ii. bydd y datblygiad yn cael ei wneud ar safle sy'n 0.5 hectar neu fwy, ac nid yw'n hysbys a yw'r datblygiad yn dod o dan is-baragraff (c)(i);
  - d) darparu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr yn 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu
  - e) ddatblygiad sy'n cael ei wneud ar safle ag arwynebedd o 1 hectar neu fwy;

## Awdurdodau Cynllunio Lleol

- 1.5. Byddai Opsiwn 1 golygu bod ychydig os o gwbl o geisiadau am ddatblygiadau mawr yn cael eu cyflwyno i awdurdod cynllunio lleol am y cyfnod lle na all datblygwyr gydymffurfio â gofynion gweithdrefnol y DMPWO.
- 1.6. Mae prif ffynhonnell cyllid awdurdodau cynllunio lleol yn dod o incwm y ffi maen nhw'n ei gael am wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau. Mae ein tystiolaeth ni'n awgrymu bod y cyllid hwn yn ddibynnol iawn ar y ffioedd cysylltiedig â phenderfyniadau ynghylch y mathau hyn o geisiadau<sup>1</sup>.
- 1.7. Felly, byddai oedi o ran cyflwyno ceisiadau ar gyfer datblygiadau mawr yn cael effaith niweidiol ar gyllid awdurdodau cynllunio lleol.

## Y Diwydiant Datblygu

- 1.8. Drwy gynnal ymgynghoriad cymunedol cyn ymgeisio ar lefel sylfaenol, amcangyfrifir bod cyfanswm y gost mae'r datblygwr yn ei hysgwyddo rhwng £390 a £1,430<sup>2</sup>. Er y byddai atal y broses ymgynghori cyn ymgeisio dros dro yn golygu bod y costau hyn yn cael eu harbed, mae'n debygol y byddai'r costau fyddai'n deillio o'r oedi yn gwrthbwysu'r rhain. Er ei bod yn anodd amcangyfrif y gost yn union, mae'n amlwg bod oedi cyn gwneud penderfyniadau cynllunio yn rhoi baich ariannol ar ddatblygwyr ac ar economi Cymru.
- 1.9. Mae oedi'n debygol o gael effaith niweidiol ar sut mae'r gwaith o ddatblygu a rheoli tir yng Nghymru yn cael ei wneud gan y system gynllunio, sy'n un o'r prif ysgogiadau o ran cynnydd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae diwydiant datblygu iach a gweithredol yn debygol o chwarae rhan sylweddol yn y broses adfer pan fydd mesurau COVID-19 yn cael eu llacio.

## Y Gymuned Leol

- 1.10. Byddai atal y system cyn ymgeisio dros dro yn golygu oedi o ran datblygu amrywiaeth eang o ddatblygiadau ar raddfa fawr sydd o fudd economaidd a chymdeithasol, a allai niweidio cymunedau lleol, yn enwedig rhai lle mae angen tai fforddiadwy neu gyflogaeth.

## **Manteision**

### Llywodraeth Cymru

- 1.11. Does dim manteision o bwys i Lywodraeth Cymru.

---

<sup>1</sup> Newidiadau i ffioedd cynllunio a ffioedd cysylltiedig â cheisiadau. Llywodraeth Cymru. Rhagfyr 2019.

<sup>2</sup> EMRIA Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (prisiau wedi'u diweddarau gan ddefnyddio cyfres y datchwyddydd cynnyrch domestig gros')

## Awdurdodau Lleol

- 1.12. Ar hyn o bryd, mae adnoddau awdurdodau lleol dan bwysau o ganlyniad i effeithiau COVID-19. Bydd gostyngiad yn nifer y ceisiadau cynllunio yn golygu bod modd ailasesu adnoddau staff yr adran gynllunio a'u hadleoli i feysydd allweddol eraill dros dro er mwyn diwallu anghenion yr awdurdod lleol.
- 1.13. Fodd bynnag, gallai adleoli staff, pe na baent yn dychwelyd i'w swyddi gwreiddiol pan fydd y cyfyngiadau COVID-19 dechrau cael eu codi, effeithio ar weithrediad y gwasanaeth cynllunio, a fyddai'n cael effaith niweidiol ar allu'r system gynllunio i gyflawni ei rôl fel gwasanaeth allweddol, a helpu gyda'r broses adfer.

## Y Diwydiant Datblygu

- 1.14. Does dim manteision i'r diwydiant datblygu.

## Y Gymuned Leol

- 1.15. O dan opsiwn 1, bydd y broses ymgynghori cyn ymgeisio yn debygol o gael ei hatal nes bydd llawer o adeiladau cyhoeddus yn ailagor, a fyddai'n golygu bod datblygwyr yn gallu defnyddio'r cyfleusterau hyn i gyflwyno gwybodaeth am ddatblygiadau arfaethedig i'r cyhoedd ei harchwilio.

## **Opsiwn 2 - Cyflwyno Gorchymyn Diwygio sy'n estyn y cyfnod argyfwng**

### **Disgrifiad**

- 1.16. Byddai opsiwn 2 yn golygu bod y darpariaethau a fewnosodwyd i'r DMPWO yn cael eu hestyn tan 8 Ionawr 2021 gan gael yr effaith ganlynol:
- Dileu'r gofyniad sy'n nodi bod rhaid sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'w harchwilio mewn lleoliad agos i'r datblygiad arfaethedig, a'i ddisodli â gofyniad sy'n nodi bod rhaid i'r wybodaeth fod ar gael ar wefan.
  - Disodli Atodlen 1B 'yr hysbysiad angenrheidiol', i adlewyrchu'r holl wybodaeth yn cael ei storio ar-lein yn unig. Nawr mae'n rhaid i'r hysbysiad gynnwys rhif ffôn cyswllt ar gyfer y datblygwr/asiant. Dylid darparu gwybodaeth ar ffurf copi caled ar gais, gyda'r datblygwr yn ysgwyddo'r gost.
- 1.17. Byddai'r newidiadau hyn yn rhai dros dro, tan 8 Ionawr neu tan y gwneir Gorchymyn diwygio arall i ddiddymu neu ymestyn y newidiadau dros dro yn dilyn cyngor gan y llywodraeth yng nghyswllt COVID-19.

### **Costau**

#### Llywodraeth Cymru

- 1.18. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn wynebu cost ariannol ychwanegol.

1.19. Bydd yr holl gostau cysylltiedig â gwneud y ddeddfwriaeth a rhannu canllawiau perthnasol yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

#### Awdurdodau Cynllunio Lleol

1.20. Ni fyddai awdurdodau cynllunio lleol yn wynebu costau ariannol ychwanegol. Byddai busnes yn parhau fel yr oedd cyn COVID-19.

#### Y Diwydiant Datblygu

1.21. Efallai y bydd y diwydiant datblygu'n wynebu'r gost ychwanegol o bostio copïau caled o wybodaeth ar gais pobl nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwrwyd. O blith yr holl gartrefi ym Mhrydain, roedd gan 93% ohonynt fynediad i'r rhyngwrwyd yn 2019<sup>3</sup> felly mae disgwyl i nifer y ceisiadau hyn fod yn isel iawn.

1.22. Mae'r gost o gynhyrchu copi caled o gais cynllunio ar gyfer Datblygiad Mawr yn amrywio fesul achos, ac mae'n dibynnu ar raddfa'r cais a'r deunydd ategol sydd ei angen i ddisgrifio'r datblygiad. Efallai mai dim ond cynllun neu arolwg penodol y bydd y rheini sy'n gwneud cais am wybodaeth eisiau ei weld, nid yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r cais. Er hynny, mae'r costau a ysgwyddir yn ddi-nod o'u cymharu â'r costau posibl fyddai'n cael eu hysgwyddo yn sgil yr oedi.

#### Y Gymuned Leol

1.23. Ni fyddai'r gymuned leol yn wynebu unrhyw gostau ariannol. Byddai busnes yn parhau fel yr oedd cyn COVID-19.

1.24. Mae mesurau lliniaru wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod pobl heb fynediad i'r rhyngwrwyd yn dal yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth berthnasol. Bydd rhif ffôn yn cael ei ddarparu ar hysbysiad y safle, a gall pobl heb fynediad i'r rhyngwrwyd ddefnyddio hwn i wneud cais am gopi caled o'r wybodaeth berthnasol. Gallent hefyd drafod y datblygiad gyda'r datblygwr/asiant.

1.25. Oherwydd bod pobl yn cadw pellter cymdeithasol neu'n hunanymysu, mae risg na fydd y bobl nad ymgynghorir â nhw'n uniongyrchol yn gweld yr hysbysiad safle, ac efallai na fyddant yn ymwybodol o'r ymgynghoriad. Er mai cyhoeddi hysbysiad safle a rhoi gwybod i gymdogion uniongyrchol yw'r unig ofynion statudol o ran cyhoeddusrwydd, mae datblygwyr yn aml yn mynd gam ymhellach na'r gofynion sylfaenol i sicrhau bod eu hymgyngoriad yn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl, er enghraifft, drwy bostio negeseuon ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol.

1.26. Bydd datblygwyr yn cael eu hatgoffa i fanteisio ar gyfryngau cymdeithasol i gyhoeddi eu hymgyngoriadau er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl. Bydd llafar gwlad hefyd yn parhau i godi ymwybyddiaeth mewn cymunedau.

---

<sup>3</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Defnyddwyr y Rhyngwrwyd, y DU 2019

1.27. Serch hynny, ar ôl cyflwyno cais cynllunio, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn cynnal proses cyhoeddusrwydd ac ymgynghoriad ffurfiol. Bydd hyn yn rhoi cyfle arall i'r rheini sydd â buddiant yn y datblygiad i wneud sylwadau cyn bod penderfyniad terfynol yn cael ei wneud o ran rhoi neu wrthod caniatâd cynllunio.

## **Manteision**

### Llywodraeth Cymru

1.28. Byddai'r diwygiad deddfwriaethol a gynigir o dan opsiwn 2 yn galluogi'r broses ymgynghori cyn ymgeisio barhau.

1.29. Mae Ffyniant i Bawb<sup>4</sup> yn cydnabod bod penderfyniadau cynllunio yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd unigolyn ac mae'n cyfleu'r neges o weithio mewn ffordd wahanol. Mae'r strategaeth yn nodi bod cael system gynllunio addas yn hanfodol er mwyn cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Bydd diwygio gweithdrefnau'n sicrhau bod y system ceisiadau cynllunio'n gweithredu'n ddiraferth, gan helpu awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau datblygiad cynaliadwy, a helpu busnesau drwy gynnal system gynllunio effeithiol sy'n darparu'r gallu i greu cyfleoedd economaidd i bawb.

### Awdurdodau Cynllunio Lleol

1.30. Byddai awdurdodau cynllunio lleol yn parhau i gael incwm o ffioedd ceisiadau ar gyfer datblygiadau mawr.

1.31. Byddai adrannau cynllunio yn cadw staff er mwyn sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn barod i geisiadau gael eu cyflwyno ar ôl COVID-19 fel rhan o'r broses o adfer yr economi.

### Y Diwydiant Datblygu

1.32. O dan opsiwn 2, byddai'r diwydiant datblygu yn parhau'r broses ymgynghori cyn ymgeisio, sy'n arwain yn y pen draw at allu cyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr. Bydd hyn yn atal oedi helaeth o ran cyflwyno ceisiadau cynllunio, a'r effeithiau ar y sector adeiladu sy'n deillio o hynny.

1.33. Gall y diwydiant datblygu sicrhau parhad busnes drwy wneud yn siŵr bod ceisiadau cynllunio yn parhau i gael eu cyflwyno. Bydd hyn y cyfrannu at sicrhau bod pobl sydd â swyddi cysylltiedig â'r system gynllunio yn cael eu cadw mewn gwaith yn ystod yr argyfwng cenedlaethol hwn, gan gefnogi economi fywiog a chreu cyfoeth.

---

<sup>4</sup> Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru. Symud Cymru Ymlaen. Llywodraeth Cymru. 2017

## Y Gymuned Leol

1.34. O dan opsiwn 2, bydd y gymuned leol yn elwa'n uniongyrchol os bydd y diwydiant datblygu'n gallu parhau – yn sgil datblygiadau sy'n amrywio o dai fforddiadwy i fusnesau'n codi adeiladau newydd, a fydd yn creu cyflogaeth. Bydd hyn yn arwain at fanteision yn y diwydiant adeiladu ac i'r rheini fydd yn defnyddio'r cyfleusterau hyn.

### **Crynodeb a'r Opsiwn sy'n cael ei Ffafrio**

1.35. Byddai opsiwn 1 unwaith eto yn atal datblygiadau mawr gan y diwydiant datblygu dros dro. Byddai hyn yn esgor ar oblygiadau economaidd i ddatblygwyr, awdurdodau cynllunio lleol a'r economi ehangach. Gallai'r oedi effeithio ar barodrwydd y system gynllunio i helpu gyda'r broses adfer ar ôl Covid-19.

1.36. Byddai opsiwn 2 yn sicrhau bod ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr yn gallu parhau, gan atal oedi yn y diwydiant datblygu a'r system gynllunio.

1.37. Felly, opsiwn 2 sy'n cael ei ffafrio.

## **2. Ymgynghori â Chynghorau Cymuned**

### **Opsiynau**

2.1. Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried:

- Opsiwn 1 - Gwneud dim byd h.y. dim newidiadau deddfwriaethol.
- Opsiwn 2 - Cyflwyno Gorchymyn Diwygio er mwyn ymestyn y cyfnod argyfwng, gan gadw cyfnod 21 niwrnod ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad

### **Opsiwn 1 - Gwneud dim byd**

#### **Disgrifiad**

2.2. Yng nghyswllt y broses ceisiadau cynllunio, ar ôl i Gynghorau Cymuned roi gwybod i'r awdurdod cynllunio lleol eu bod yn dymuno cael gwybod am gais penodol, mae Erthygl 16 y DMPWO yn rhoi cyfnod statudol o 14 diwrnod (30 diwrnod ar gyfer cais sy'n ymwneud ag Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) iddynt gyflwyno eu sylwadau i'r awdurdod cynllunio lleol. Mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi'i rwystro rhag gwneud penderfyniad am geisiadau yn ystod y cyfnod hwn.

2.3. Mae diwygiadau a fewnosodwyd i'r DMPWO gan Orchymyn Ceisiadau Cynllunio (Datgymhwyso ac Addasiadau Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 yn estyn y cyfnod hwn i 21 niwrnod.

2.4. Byddai gwneud dim byd yn golygu bod y cyfnod yn dychwelyd i 14 diwrnod.

#### **Costau**

##### Llywodraeth Cymru

2.5. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn wynebu cost ariannol.

##### Awdurdodau Cynllunio Lleol

2.6. Er na fyddai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn wynebu cost ariannol, gallai hyn gael effaith ddemocrataidd oherwydd mae'n bosibl y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud heb dderbyn sylwadau gan Gynghorau Cymuned.

2.7. Gallai cynrychiolaeth Cynghorau Cymuned fod wedi effeithio ar benderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio.

##### Cynghorau Cymuned

2.7 Er na fyddai Cynghorau Cymuned yn wynebu cost ariannol, mae risg na fyddent yn gallu bod yn rhan o'r broses gynllunio oherwydd eu bod yn methu



cydlynu cyfarfod o bell a chyflwyno sylwadau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn y cyfnod 14 diwrnod a ganiateir ar hyn o bryd.

2.8 Byddai hyn yn arwain at ddiffyg democratiaidd yn y broses gwneud penderfyniadau.

## **Manteision**

### Llywodraeth Cymru

2.9 Does dim manteision i Lywodraeth Cymru.

### Awdurdodau Cynllunio Lleol

2.10 Does dim manteision i Awdurdodau Cynllunio Lleol.

### Cynghorau Cymuned a Thref

2.11 Does dim manteision i Gynghorau Cymuned a Thref.

## **Opsiwn 2 - Cyflwyno Gorchymyn Diwygio er mwyn ymestyn y cyfnod argyfwng, gan gadw'r cyfnod o 21 niwrnod ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad**

## **Disgrifiad**

2.12 Byddai opsiwn 2 yn golygu cadw tan 8 Ionawr 2021 y cyfnod estynedig o 21 niwrnod pan y caiff Cynghorau Cymuned a Thref gyflwyno sylwadau i Awdurdodau Cynllunio Lleol.

2.13 Byddai cadw'r cyfnod estynedig hwn yn rhoi mwy o amser i ymateb gan ystyried yr anawsterau mae Cynghorau Cymuned yn eu hwynebu yn sgil mesurau rheoli'r llywodraeth yng nghyswllt COVID-19, o ran cynnal cyfarfodydd rheolaidd oedd wedi'u trefnu.

## **Costau**

### Llywodraeth Cymru

2.14 Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn wynebu cost ariannol ychwanegol.

2.15 Bydd yr holl gostau cysylltiedig â gwneud y ddeddfwriaeth a rhannu canllawiau perthnasol yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

### Awdurdodau Cynllunio Lleol

2.16 Ni fyddai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn wynebu cost ariannol.

## Cynghorau Cymuned a Thref

2.17 Ni fyddai Cynghorau Cymuned a Thref yn wynebu cost ariannol.

### **Manteision**

#### Llywodraeth Cymru

2.18 Does dim manteision uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

#### Awdurdodau Cynllunio Lleol

2.19 Byddai cadw'r cyfnod estynedig ar gyfer derbyn ymatebion gan Gynghorau Cymuned i 21 diwrnod yn rhoi'r un faint o amser ag y mae'r cyhoedd yn ei gael fel rhan o'r cyfnod cyhoeddusrwydd statudol.

2.20 Bydd pennu un dyddiad lle disgwylir i'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ddod i law yn helpu i reoli'r broses ymgeisio.

#### Cynghorau Cymuned a Thref

2.21 Mae COVID-19 wedi effeithio ar allu Cynghorau Cymuned i gynnal eu cyfarfodydd rheolaidd oherwydd bod manau cyfarfod wedi cau a bod aelodau'n cadw pellter cymdeithasol.

2.22 Bydd yr amser ychwanegol yn rhoi'r hyblygrwydd i Gynghorau Cymuned i allu trefnu cyfarfodydd o bell a chyflwyno ymatebion i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar amser.

### **Crynodeb a'r Opsiwn sy'n cael ei Ffafrio**

2.23 Byddai opsiwn 1 yn adfer yr amser sydd ar gael i gynghorau cymuned a thref gael gwneud sylwadau ar geisiadau cynllunio i 14 diwrnod. Mae'r oedi o ran gallu Cynghorau Cymuned i gynnal cyfarfodydd yn debygol o olygu y byddant yn cymryd mwy o amser nag arfer i gyflwyno ymatebion, gan olygu y gallent gyflwyno sylwadau i'r awdurdod cynllunio lleol ar ôl i'r penderfyniad am y cais cynllunio gael ei wneud.

2.24 Byddai opsiwn 2 yn cadw'r cyfnod estynedig sydd gan Gynghorau Cymuned i gyflwyno sylwadau i 21 diwrnod, sef yr un faint â'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cyhoedd. Byddai'r amser ychwanegol yn helpu Cynghorau Cymuned i gyflwyno ymatebion i geisiadau cynllunio ar amser, gan sicrhau cymaint o gynhwysiant democrataidd â phosibl yn y broses gwneud penderfyniadau.

2.25 Felly, opsiwn 2 sy'n cael ei ffafrio.

### **3. Newid Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol**

#### **Opsiynau**

3.1. Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried:

- Opsiwn 1 - Gwneud dim byd h.y. dim newidiadau deddfwriaethol.
- Opsiwn 2 – Estyn y cyfnod pan y datgymhwysir y gofyniad i gyflwyno copi caled o'r cais cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol i Weinidogion Cymru a'r Awdurdod Cynllunio Lleol lle bo cais yn cael ei wneud yn electronig.

#### **Opsiwn 1 - Gwneud dim byd**

##### **Disgrifiad**

- 3.2. Cyn i Orchymyn cyntaf 2020 fewnosod y darpariaethau i'r DNSPWO, lle caiff cais cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ei wneud yn electronig, mae'r DNSPWYO yn cynnwys darpariaeth sy'n gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno copi caled o'r cais cynllunio i Weinidogion Cymru a'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Gwneir hyn at ddibenion ymarferol, er enghraifft, i sicrhau bod gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a Gweinidogion Cymru gopi caled wrth law i ddadansoddi'r cais, gan mai hwn yw'r fformat sy'n cael ei ffafrio gan nifer o'r swyddogion a'r unigolion penodedig fydd yn archwilio'r cais.
- 3.3. Gallai gwneud dim byd olygu bod y gofyniad hwn yn cael ei adfer, pe bai cais yn cael ei gyflwyno'n electronig.

##### **Costau**

###### Llywodraeth Cymru

3.4. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn wynebu cost ariannol.

###### Awdurdodau Cynllunio Lleol

3.5. Ni fyddai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn wynebu cost ariannol.

###### Y Diwydiant Datblygu

3.6. Mae'r gost o gynhyrchu copi caled o gais cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yn amrywio fesul achos, ac mae'n dibynnu ar raddfa'r cais a'r deunydd ategol sydd ei angen i ddisgrifio'r datblygiad. Amcangyfrifir y byddai'r gost yn £120, ar sail y gost o argraffu 1,000 o dudalennau mewn lliw, costau rhwymo a'r gost o blotio 25 o ddarluniau maint A1. Amcangyfrifir y byddai'r gost o gyflwyno dau gais, gan gynnwys costau danfon, yn £260 y cais.

## **Manteision**

### Llywodraeth Cymru

- 3.7. Ni fyddai Gweinidogion Cymru yn cael unrhyw fanteision mawr oherwydd bydd copi o'r cais wedi cael ei anfon yn electronig beth bynnag. Mater o gyfleuster i'r swyddogion sy'n dadansoddi'r cais fyddai cael copi caled.

### Awdurdodau Cynllunio Lleol

- 3.8. Ni fyddai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cael unrhyw fanteision o bwys, oherwydd bydd copi o'r cais wedi cael ei anfon yn electronig beth bynnag. Mater o gyfleuster i'r swyddogion sy'n dadansoddi'r cais fyddai cael copi caled. Er y gellid sicrhau bod copi caled ar gael i'w archwilio, caiff y ddyletswydd o gynnal cofrestr gynllunio ei chynnal a'i chyflawni'n electronig fel arfer.

### Y Diwydiant Datblygu

- 3.9. Does dim manteision hysbys i'r Diwydiant Datblygu. Gan na fyddai'r Diwydiant Datblygu'n gallu cydymffurfio â gofynion y DNSPWO, ni fyddai'n gallu cyflwyno cais dilys.

**Opsiwn 2 – Estyn y cyfnod pan y datgymhwysir y gofyniad i gyflwyno copi caled o'r cais cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol i Weinidogion Cymru a'r Awdurdod Cynllunio Lleol lle bo cais yn cael ei wneud yn electronig ac ymestyn y cyfnod ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad**

## **Disgrifiad**

- 3.10. Caiff ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol eu cyflwyno'n electronig fel arfer. Yn ystod y pandemig COVID-19, gallai problemau ymarferol godi yng nghyswllt cyflwyno copïau caled oherwydd nid oes staff i'w derbyn yn y swyddfeydd perthnasol, ac ni ellir cadarnhau eu bod wedi dod i law bob amser.
- 3.11. Diwygiwyd y DNSPWO gan Orchymyn cyntaf 2020 trwy ddileu'r gofyniad i gyflwyno copi caled i Weinidogion Cymru a'r Awdurdod Cynllunio Lleol, am resymau ymarferol, lle bo cais yn cael ei wneud yn electronig.
- 3.12. Daw'r diwygiad hwn i ben ar 18 Medi 2020.

## **Costau**

### Llywodraeth Cymru

- 3.13. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn wynebu cost ariannol ychwanegol.

3.14. Bydd yr holl gostau cysylltiedig â gwneud y ddeddfwriaeth yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

#### Awdurdodau Cynllunio Lleol

3.15. Ni fyddai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn wynebu costau ariannol ychwanegol. Oherwydd bod dim staff yn y swyddfeydd ar hyn o bryd, ni fyddai modd argraffu'r cais. Mae'n rhaid i swyddogion ddadansoddi pob cais yn electronig.

#### Y Diwydiant Datblygu

3.16. Byddai tua £260 o gostau yn cael eu harbed yng nghyswllt pob cais.

### **Manteision**

#### Llywodraeth Cymru

3.17. Does dim manteision uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

#### Awdurdodau Cynllunio Lleol

3.18. Does dim manteision uniongyrchol i Awdurdodau Cynllunio Lleol.

#### Y Diwydiant Datblygu

3.19. Mae COVID-19 wedi effeithio ar allu'r Diwydiant Datblygu i gydymffurfio â gofynion y DNSPWO. Bydd cadw'r newid yn opsiwn 2 yn galluogi'r Diwydiant Datblygu i barhau i gyflwyno ceisiadau a chydymffurfio â'r gofynion perthnasol.

### **Crynodeb a'r Opsiwn sy'n cael ei Ffario**

3.20. Byddai opsiwn 1 yn adfer y sefyllfa fel ag yr oedd, fodd bynnag, gallai olygu bod ceisiadau ddim yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol ac nad oes modd eu cyflwyno felly. Byddai opsiwn 2 yn caniatáu i'r broses ddiwygiedig fynd yn ei blaen, gan ddileu gofyniad sy'n atal ceisiadau rhag cael eu cyflwyno.

3.21. Felly, opsiwn 2 sy'n cael ei ffario.

### **Asesiad o'r Gystadleuaeth**

4.1. Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi cael ei gwblhau. Does dim disgwyl i'r cynigion effeithio ar lefelau cystadleuaeth yng Nghymru na pha mor gystadleuol yw busnesau Cymru.

**Rebecca Evans AS/MS**  
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**  
**Minister for Finance and Trefnydd**



**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Ein cyf: MA-JJ-2895-20

Elin Jones AS/MS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd CF99 1SN

17 Medi 2020

Annwyl Llywydd,

**Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Cymru)**  
**(Coronafeirws) (Rhif 2) 2020 (“y Gorchymyn”)**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu bod yr Offeryn Statudol hwn wedi dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl y dyddiad y cafodd ei osod. Mae'r memorandwm esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Mae'r Gorchymyn yn ceisio estyn y cyfnod pan fo'r trefniadau dros dro a gafodd eu cyflwyno gan Orchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 (“Gorchymyn 2020 cyntaf”) yn berthnasol i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016.

Cyflwynwyd y trefniadau dros dro yng Ngorchymyn 2020 cyntaf i ymdrin ag adeiladau nad oeddent yn hanfodol yn cael eu cau, a'r cyfyngiadau ar deithio nad oedd yn hanfodol, a oedd yn atal y system gynllunio rhag gweithredu'n effeithlon. Roedd y rheini i ddod i ben ar 18 Medi ond byddant yn cael eu hestyn tan 8 Ionawr 2021.



**BUDDSODDWYR** | **INVESTORS**  
**MEWN POBL** | **IN PEOPLE**

**Pluallen y pecyn 80**

Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff  
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 029 20823936  
@wales.gsi.gov.uk  
Gwefan • website: [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Wrth i'r cyfyngiadau coronafeirws gael eu codi'n raddol, dylai'r angen am drefniadau dros dro fod wedi lleihau. Fodd bynnag, ein profiad ni yw, er bod y cyfyngiadau cyfreithiol wedi cael eu codi, mae llawer o adeiladau cyhoeddus megis llyfrgelloedd a swyddfeydd cynghorau wedi parhau i fod ar gau neu wedi cyfyngu mynediad. O ganlyniad, mae'r angen am y darpariaethau a amlinellir yng Ngorchymyn 2020 cyntaf wedi parhau er mwyn sicrhau bod y system gynllunio'n parhau i weithio mewn modd effeithlon.

Mae angen i'r Gorchymyn ddod i rym erbyn 18 Medi i sicrhau bod gwasanaethau cynllunio'n parhau.

Bydd peidio â dod â'r Gorchymyn i rym ar unwaith yn arwain at ôl-groniad o geisiadau cynllunio'n aros i gael eu cyflwyno, a byddai hyn yn cael effeithiau canlyniadol ar y sector adeiladu a'r economi, a hynny ar adeg pan fydd yn bwysig gwrthdroi colledion ariannol yn gyflym er mwyn lleihau'r difrod economaidd a chymdeithasol hirdymor sy'n cael eu peri. Ystyrir bod yr angen i weithredu'n gyflym yn cyfiawnhau anwybyddu'r confensiwn 21 diwrnod yn yr achos hwn.

Oherwydd yr angen i roi'r Gorchymyn ar waith ar unwaith, nid yw wedi bod yn destun ymgynghoriad; fodd bynnag, mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi a'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd

# Eitem 3.5

## SL(5)583 - Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020

### Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn sefydlu cynllun masnachu allyriadau newydd sy'n cwmpasu allyriadau nwyon tŷ gwydr o gynhyrchu pŵer a gwres; diwydiannau ynni-ddwys; a'r sector awyrennau. Gelwir y cynllun yn Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU ("UK ETS"), a bydd yn olynydd yn y DU i System Masnachu Allyriadau'r UE ("EU ETS").

Bydd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cwmpasu allyriadau nwyon tŷ gwydr o:

- gynhyrchu pŵer a gwres;
- diwydiannau ynni-ddwys; a'r
- sector awyrennau.

Gwneir y Gorchymyn wrth arfer pwerau a roddwyd gan Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 ac mae'n cynnwys 77 erthygl, wedi'u rhannu'n 9 Rhan, ac 11 Atodlen.

Mae Rhan 1 yn cynnwys diffiniadau a ddefnyddir trwy'r Gorchymyn, y gweithgareddau a'r gwahanol nwyon tŷ gwydr a gwmpesir gan y cynllun, cyfranogwyr y cynllun a phwy fydd rheoleiddiwr y cynllun (at wahanol ddibenion).

Mae Rhan 2 yn cyflwyno'r cynllun ac yn sefydlu gofyniad adolygu, ac mae'n nodi elfennau eraill o'r cynllun sy'n berthnasol i weithredwyr gosodiadau, ac i weithredwyr awyrennau.

Mae rhannau 3 a 4 yn gwneud darpariaeth benodol mewn perthynas â gweithredwyr gosodiadau a gweithredwyr awyrennau. Mae Rhan 5 yn cynnwys darpariaeth sy'n caniatáu i'r rheoleiddwyr godi tâl am gyflawni eu swyddogaethau rheoleiddio o dan y Gorchymyn.

Mae Rhan 6 yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi'r rheoleiddwyr i fonitro cydymffurfriad â'r Gorchymyn, gan gynnwys trwy arolygiadau ac arfer pwerau mynediad. Mae Rhan 7 yn cynnwys darpariaeth ynghylch gorfodi, gan gynnwys ystod o gosbau sifil y gellir eu gosod mewn perthynas ag achosion penodol o dorri'r Gorchymyn neu amodau trwydded.

Mae Rhan 8 (sy'n cael ei ategu gan Atodlenni 9 a 10) yn cynnwys darpariaeth ynghylch apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wneir gan y rheoleiddiwr ynghylch ceisiadau ac apeliadau mewn perthynas â hysbysiadau a roddir o dan y Gorchymyn. Mae Rhan 9 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â hysbysiadau gwybodaeth, cymhwyso i'r Goron ac mae'n gwneud darpariaeth drosiannol (erthygl 77 gydag Atodlen 11).





## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

### Materion technegol: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

#### **1. Rheol Sefydlog 21.2 (ix) - nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

Mae'r Gorchymyn wedi'i wneud yn Saesneg yn unig. Mae Rhan 1, Adran 2 o Femorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru (ar dudalen 2) yn nodi fel a ganlyn:

*"Gan y bydd Senedd y DU yn craffu ar y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, ni ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei greu na'i osod yn ddwyieithog."*

### Rhinweddau: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

#### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Cynllun Masnachu Allyriadau'r UE wedi bod, ac yn parhau i fod yn bolisi allweddol ar gyfer lleihau allyriadau yn y sector pŵer, y diwydiannau ynni-ddwys, a'r sector awyrennau. Mae angen darpariaeth er mwyn sicrhau bod allyriadau o sectorau sy'n dod o dan System Masnachu Allyriadau'r UE ar hyn o bryd, yn parhau i fod yn rhan o bolisi prisio carbon ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Amcan y polisi yw cymell sectorau sydd wedi'u cynnwys yn System Masnachu Allyriadau'r UE i leihau allyriadau mewn modd cost-effeithiol. Mae gosod pris ar garbon yn cymell gostyngiad mewn allyriadau, gan annog y sector preifat i fuddsoddi mewn mesurau lleihau allyriadau. Y bwriad yw y bydd cynllun ledled y DU yn sicrhau bod polisi prisio carbon yn parhau er mwyn annog y sectorau pŵer, diwydiant ac awyrennau i ddatgarboneiddio.

Mae llawer o nodweddion cynllunio Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn adlewyrchu System Masnachu Allyriadau'r UE, a allai hwyluso cysylltiad â system yr UE yn y dyfodol. Fodd bynnag, yn unol â'r ymrwymiad ledled y DU i symud tuag at allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050, mae'r cap sydd wedi cael ei osod 5 y cant yn is na chyfran dybiannol y DU o gap System Masnachu Allyriadau'r UE.



Rhoddodd Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r Gorchymyn ar 14 Medi. Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor ar 18 Medi 2020, i ddarparu rhestr bendant o'r gosodiadau yng Nghymru y mae'r Gorchymyn yn berthnasol iddynt, ac i ateb rhai cwestiynau ychwanegol.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Mae sefydlu cynllun i olynu System Masnachu Allyriadau'r UE yn un o'r meysydd fframwaith cyffredin y cytunwyd arnynt ar y cyd. Bydd cyfranogiad y DU yn System Masnachu Allyriadau'r UE yn dod i ben ar ddiwedd y Cyfnod Pontio ar 31 Rhagfyr 2020 (yn amodol ar rwymedigaethau'r DU yn y Cytundeb Ymadael yn unol ag Erthygl 96(2) sy'n ymwneud â chydymffurfio yn 2020 a'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon). Bydd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn dechrau ar 1 Ionawr 2021 er mwyn sicrhau bod polisi prisio carbon ar waith pan fydd y DU yn rhoi'r gorau i fod yn rhan o System Masnachu Allyriadau'r UE. Bwriad Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yw annog y broses o leihau allyriadau mewn modd cost-ffeithiol a fydd yn cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau a nod sero net y DU.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### Cynghorwyr Cyfreithiol

### Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad 23 Medi 2020



*Draft Order in Council laid before Parliament, the Northern Ireland Assembly, the Scottish Parliament and Senedd Cymru under paragraph 11 of Schedule 3 to the Climate Change Act 2008 for approval by resolution of each House of Parliament, the Northern Ireland Assembly, the Scottish Parliament and Senedd Cymru*

---

DRAFT STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2020 No. XXX**

**CLIMATE CHANGE**

**The Greenhouse Gas Emissions Trading Scheme Order 2020**

*Made* - - - - *\*\*\**

*Coming into force in accordance with article 2*

**CONTENTS**

**PART 1**

Preliminary

|     |  |    |
|-----|--|----|
| 1.  | Citation                                       | 5  |
| 2.  | Commencement                                   | 5  |
| 3.  | Extent   | 5  |
| 4.  | Interpretation                                 | 5  |
| 5.  | Meaning of operator                            | 8  |
| 6.  | Meaning of aircraft operator                   | 9  |
| 7.  | Exempt commercial air transport operators      | 9  |
| 8.  | Exempt non-commercial air transport operators  | 9  |
| 9.  | Meaning of regulator                           | 9  |
| 10. | Meaning of regulator: installations            | 10 |
| 11. | Meaning of regulator: aircraft operators       | 11 |
| 12. | Aircraft operator: change in regulator         | 11 |
| 13. | Aircraft operator: change in registered office | 12 |
| 14. | Meaning of UK ETS authority, etc.              | 12 |
| 15. | Applications, notices, etc.                    | 12 |

**PART 2**

Basic elements of the UK ETS

CHAPTER 1

Establishment of the UK ETS and requirement for review

|     |                             |    |
|-----|-----------------------------|----|
| 16. | UK Emissions Trading Scheme | 13 |
| 17. | Review of UK ETS            | 13 |

CHAPTER 2  
Allowances and caps

|     |   |    |
|-----|---|----|
| 18. | Allowances  | 13 |
| 19. | Cap for trading period                            | 13 |
| 20. | Cap for scheme years                              | 14 |
- The four administrations are committed to seeking advice from their statutory advisors, the Committee on Climate Change prior to laying legislation.
- Working groups for discussion of policy decisions and system interventions under the UK ETS should include representation from BEIS, the DAs, HMT, DfT (where appropriate) and the environmental regulators (where appropriate).
- At ministerial level, BEIS and DA Ministers (and DfT Ministers, where appropriate) will be sighted and engaged in discussions where a policy decision relating to elements of the policy set out under the Finance Act is being considered. A ministerial level discussion should constitute a two-way exchange, with BEIS and DA Ministers allowed sufficient time to consider the decision and raise challenges. Responsibility for final sign-off of decisions relating to the elements of a UK-wide emissions trading system set out in Finance Act provisions will lie with the Chancellor (HMT). Before final sign-off, HMT Ministers should respond to challenges raised and provide justification for decisions reached. Should a UKG or DA Minister dispute a decision in a reserved policy area, this can be escalated to the JMC Secretariat.
- As the UK Government department responsible for aviation policy, DfT should have the option to attend all Official and Senior level groups given the potential impact of decisions made under a UK ETS on aviation. Agreement from DfT ministers must be gained before agreeing a UK Government policy position focused on aviation under a UK ETS.
- For the most effective use of the governance structure, and ultimately the operation of the system, proposals should be discussed and, where possible, a recommendation agreed at Official Level working groups.
- For all proposals, the UK Government and DAs should seek to obtain appropriate and relevant evidence to support recommendations reached. Any relevant evidence obtained must be taken into account in reaching a recommendation.
- In all decision-making, the parties to the framework will adhere to the common framework principles agreed at JMC (EN) in October 2017.

## **Process for completion**

### ***Legislation***

| <b>UK ETS Legislation</b>  |  |   |
|--|--|---|
| <b>Instrument</b>  | <b>Laying date</b>   | <b>In force date</b>                      |
| The Greenhouse Gas Emissions Trading Scheme Order 2020             | 13 <sup>th</sup> July (UK Parliament, Scottish Parliament), w/c 15 <sup>th</sup> July, (Welsh Parliament)<br>15 <sup>th</sup> July (NI Assembly) | Mid-November                              |
| The Greenhouse Gas Emissions Trading Scheme Order (Amendment) 2020 | Mid-November   | Mid-November                              |
| Finance Act 2020 (charging clause)                                 | 17 <sup>th</sup> March 2020  | 22 <sup>nd</sup> July 2020 (Royal Assent) |
| Auctioning and market stability mechanisms SI                      | October/November 2020 (TBC)  | December 2020 – January 2021              |
| Recognised Auction Platforms (Amendment) Regulations 2020          | TBC  | TBC                                       |

### ***Framework Outline Agreement (FOA)***

The UK ETS FOA will set out, in more detail, our approach to the common framework and proposed decision-making and dispute resolution processes. It has been used as a policy development tool.

The UK ETS FOA shall be cleared by UK Government and DA Ministers and will be presented to the UK and Devolved Parliaments alongside the concordat.

### ***Governance concordat***

Following JMC(EN) clearance of the provisional framework, the FOA and concordat will become available for parliamentary scrutiny. We expect that the FOA and concordat will be available for scrutiny in late October/early November.



Ein cyf/Our ref: MA-LG-2248-20

Mike Hedges AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Ynni a Materion Gwledig

15 Gorffennaf 2020

Annwyl Mike

Yn fy Natganiad Ysgrifenedig ar 1 Mehefin, ymrwymais i ddiweddarau pwyllgorau'r Senedd ar y cynnydd wnaed ar ddyfodol prisio carbon yn y DU ar ôl ymadael â'r UE a'r safbwynt polisi ar y cyd a drafodwyd rhwng y Llywodraeth a phedair cenedl y DU. Byddaf yn esbonio'r broses o ddatblygu'r polisi, yn darparu trosolwg o'i ddyluniad gan gynnwys y ddeddfwriaeth a'r strwythurau llywodraethu a fydd yn sail iddo, ac yn awgrymu sut y gall fy swyddogion a minnau helpu pwyllgorau'r Senedd i graffu ar y polisi hwn.

Mae diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys lleihau allyriadau a newid hinsawdd, yn faterion datganoledig. O ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, roedd angen sicrhau ein bod yn parhau i gymell datgarboneiddio diwydiannol. Rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r Gweinidogion cyfatebol eraill ar draws y DU i ddatblygu Fframwaith Cyffredin i ddisodli System Masnachu Allyriadau (ETS) yr UE. Nid yw Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 yn darparu pwerau digonol i sefydlu system ddeddfwriaethol newydd. Felly, penderfynodd y pedair Llywodraeth i gyd-sefydlu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS y DU) gan ddefnyddio'r pwerau presennol o dan Ran 3 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008.

Roedd ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar y cyd yn 2019 wedi ceisio barn ar gynigion i gymhwyso ETS y DU ar ôl y cyfnod pontio, gyda'r cyfnod deng mlynedd cyntaf yn dechrau ar 1 Ionawr 2021. Bydd yn adlewyrchu dyluniad ETS yr UE, i sicrhau bod busnesau yn gallu trosglwyddo'n ddiraffferth ac yn hwyluso cysylltiad ag ETS yr UE cyn gynted â daethpwyd i gytundeb yn y trafodaethau rhwng y DU a'r UE. Roedd ymateb rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad o blaid ETS y DU, yn enwedig un sy'n gysylltiedig ag ETS yr UE. Roedd Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU yn cefnogi sefydlu cynllun masnachu cysylltiedig hefyd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 201

Ers yr ymgynghoriad, mae'r pedair Llywodraeth wedi parhau i ddatblygu'r agweddau technegol ar ddyluniad polisi ETS y DU a ddisgrifir yn yr Ymateb Llywodraethol ar y Cyd a gyhoeddwyd ar 1 Mehefin. Mae dyluniad y polisi yn taro cydbwysedd rhwng yr heriau o ran sicrhau integreidd amgylcheddol a rheoli materion o ran cystadleurwydd busnesau. Mae hyn yn hanfodol bwysig yng Nghymru gan fod y sector masnachu yn gyfrifol am ryw 46% o'n hallyriadau ac yn cynnwys rhai o'n cyflogwyr mwyaf. Mae'r ddogfen i'w gweld yma: <https://gov.wales/future-uk-carbon-pricing>.

Bydd ETS y DU yn cyd-fynd yn agos ag ETS yr UE ar y cychwyn. Mae'n berthnasol i'r un sectorau masnachu ac mae'n gosod yr un rhwymedigaethau ar gyfranwyr i fonitro allyriadau ac adrodd arnynt, ac ildio nifer cyfwerth o lwfansau. Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer dyraniad am ddim sy'n dilyn dull a meini prawf cymhwysra'r UE, a sicrhau bod rôl cydymffurfio a gorfodi rheoleiddiol Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau.

Mae gwahaniaethau, fodd bynnag, rhwng ETS y DU a system yr UE. Bydd cap cychwynnol ETS yr UE yn cael ei osod 5% yn llai na chyfran tybiannol y DU o gap ETS yr UE, a bydd yn cael ei adolygu ar ôl cael cyngor pellach ar y llwybr i 2050, i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'n nod cyffredin o gyflawni allyriadau sero net ar draws y DU erbyn 2050. Bydd hefyd fecanweithiau i reoli prisiau hynod o uchel ac isel, gan gynnwys pris cadw arwerthiant wedi'i osod yn £15 y lwfans.

Mae Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020, sy'n sefydlu ETS y DU ac yn cynnwys darpariaethau ar gyfer elfennau allweddol o'r polisi, yn cael ei osod gerbron y Senedd heddiw a bydd y pedair deddfwrfa yn craffu arno o fewn yr un cyfnod amser. Rhaid i'r Gorchymyn cael ei gymeradwyo gan y Senedd, a bydd dadl yn cael ei threfnu ar gyfer wythnos gyntaf mis Tachwedd. Bydd Gorchymyn pellach a ddefnyddia'r weithdrefn negyddol, sy'n mynd i'r afael â rhai o fanylion technegol y cynllun, yn cael ei ddwyn ymlaen tuag at ddiwedd 2020.

Yn ddiweddar, gwnaeth y Senedd gydsynio i bwerau sy'n galluogi arwerthu lwfansau allyriadau sydd wedi'u cynnwys ym Mil Cyllid Llywodraeth y DU<sup>1</sup>. Bydd Llywodraeth y DU yn dwyn ymlaen is-ddeddfwriaeth maes o law i sefydlu'r trefniadau manwl ar gyfer arwerthu.

Mae ETS y DU yn rhan o Raglen y Fframwaith Cyffredin a oruchwylir y Cyd-bwyllgor Gweinidogol ar Drafodaethau'r UE (JMC(EN)) ac fe'i datblygwyd gan ddefnyddio'r egwyddorion a nododd ym mis Hydref 2017. Bydd Cytundeb Amlinellol yn nodi'r sail resymegol dros sefydlu'r fframwaith a'r trefniadau gwneud penderfyniadau a llywodraethu. Bydd concordat rhwng Gweinidogion y pedair llywodraeth yn mynd gydag ef. Byddaf yn rhannu'r dogfennau hyn gyda'r Pwyllgor pan fyddant yn barod a chyn y cânt eu cyflwyno i'r JMC(EN) er mwyn iddo graffu arnynt.

Rwy'n awyddus i gefnogi'r gwaith craffu ar y ddeddfwriaeth a'r fframwaith ehangach, a byddaf yn barod iawn i ddarparu tystiolaeth. Mae fy swyddogion hefyd ar gael i ddarparu trosolwg technegol o'r fframwaith a manylion y ddeddfwriaeth pe bai hynny'n ddefnyddiol ichi.

---

<sup>1</sup> Pan gyflwynwyd y Bil yng Nghŷ'r Cyffredin ar 18 Mawrth 2020, y ddarpariaeth berthnasol oedd cymal 93 (Ffi ar gyfer dyrannu lwfansau o dan gynllun masnachu lleihau allyriadau). Diwygiwyd y Bil gan y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus, a daeth cymal 93 yn gymal 94. Cyflwynwyd y Bil yn Nghŷ'r Arglwyddi ar 2 Gorffennaf 2020, a daeth cymal 94 yn gymal 96. Er bod rhifau'r cymal wedi newid, nid oes unrhyw ddiwygiadau wedi'u gwneud i'w sylwedd ers iddo gael ei gyflwyno. Mae cofnod o'r Bil i'w weld yma: <https://services.parliament.uk/Bills/2019-21/finance/documents.html>.



Rwy'n ymwybodol y bydd gan bwyllgorau eraill ddi-ddordeb yn y fframwaith hwn. O ganlyniad, awgrymaf fod fy swyddogion yn cysylltu â chi i wneud y trefniadau ar gyfer sicrhau proses graffu effeithlon.

Mae ETS y DU yn bolisi technegol gymhleth, ond mae ganddo oblygiadau pwysig i'n polisi hinsawdd a'n sylfaen ddiwydiannol. Edrychaf ymlaen at drafod â chi yn ystod y gwaith craffu ar ETS y DU.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Busnes.

Cofion

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Lesley Griffiths AS/MS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

---

**TEITL** Deddfu ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU

**DYDDIAD** 15 Gorffennaf 2020

**GAN** Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Heddiw, gosodais y ddeddfwriaeth i sefydlu Cynllun Masnachu Allyriadau (ETS) y DU o 1 Ionawr 2021. Bydd ETS y DU yn helpu ein safleoedd sy'n allyrru'r symiau mwyaf o nwyon i leihau allyriadau mewn modd costeffeithlon. Bydd y Cynllun yn sicrhau parhad y polisi pan fyddwn yn ymadael â System Masnachu Allyriadau'r UE ar ddiwedd y cyfnod gweithredu.

Mae Gorchymyn Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 yn deddfu ar gyfer y nodweddion polisi sylweddol a ddisgrifir yn yr ymateb llywodraethol ar y cyd i'r ymgynghoriad ar ddyfodol prisio carbon y DU a gyhoeddwyd ar 1 Mehefin. Bydd dadl ar y Gorchymyn drafft yn cael ei chynnal ddechrau mis Tachwedd.

Rwyf wedi ysgrifennu at bwyllgorau'r Senedd ynghylch y ddeddfwriaeth hon a'r fframwaith ehangach ac edrychaf ymlaen at weithio gyda hwy dros y misoedd nesaf wrth iddynt graffu ar y fframwaith.

Mae'r Gorchymyn drafft i'w weld yma [Saesneg yn unig]:  
<https://senedd.wales/laid%20documents/sub-ld13345/sub-ld13345-w.pdf>

## SL(5)615 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) (Rhondda Cynon Taf) 2020

### Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 45C(1) ac adran (3)(c), adran 45F(2) ac adran 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984").

Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r Prif Reoliadau i ddynodi Rhondda Cynon Taf yn ardal diogelu iechyd leol sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau a gofynion penodol, sef:

- ni all unrhyw aelwyd ym mwrdeistref Rhondda Cynon Taf fod yn rhan o aelwyd estynedig na ffurfio aelwyd estynedig;
- ni all unrhyw un sy'n byw ym mwrdeistref Rhondda Cynon Taf adael yr ardal heb esgus rhesymol (fel y nodir ym mharagraff 3(2) o Atodlen 4A i'r Prif Reoliadau);
- ni chaiff unrhyw un fynd i mewn i fwrdeistref Rhondda Cynon Taf nac aros yno heb esgus rhesymol (fel y nodir ym mharagraff 4(2) o Atodlen 4A i'r Prif Reoliadau);
- ni chaiff unrhyw un o'r trigolion adael eu hardal i fynd i'r gwaith neu i ddarparu gwasanaethau elusennol neu wirfoddol, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol iddynt weithio neu ddarparu gwasanaethau elusennol neu wirfoddol o'u cartref; a
- rhaid i bob mangre sydd wedi'i thrwyddedu i werthu alcohol beidio ag agor cyn 6am bob dydd a rhaid iddi gau am 11pm neu'n gynt bob dydd<sup>1</sup>.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud mân newidiadau i'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r esgus rhesymol i ymgynnull o dan do ac i fynd i ardal diogelu iechyd leol neu ei gadael. Bwriad y diwygiadau hyn yw egluro bod rhoi gwaed a thriniaethau tebyg yn dod o fewn yr esgus rhesymol sy'n bodoli i gael neu ddarparu cymorth meddygol, sydd ynddo'i hun yn cynnwys cael gafael ar wasanaethau iechyd.

### Gweithdrefn

Gweithdrefn "gwneud cadarnhaol".

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau

<sup>1</sup> Cyhoeddodd y Prif Weinidog ar 22 Medi 2020 y bydd hyn yn cael ei newid i 10.00pm o 23 Medi 2020.



pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Rheoliadau hyn yn tynhau'r cyfyngiadau sy'n ymwneud â Covid-19 yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. O'r herwydd, mae'r Rheoliadau hyn yn ymgysylltu â hawliau dynol amrywiol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 / y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r crynodeb yn y Memorandwm Esboniadol ynghylch pa hawliau sy'n cael eu cyffwrdd a pham y gellir cyfiawnhau cyffwrdd hawliau o'r fath sef er mwyn dilyn y nod dilys o ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o Covid-19 a'i ledaeniad ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn nodi'r canlynol o'r Memorandwm Esboniadol:

*"Bydd, neu gall, y cyfyngiadau a'r gofynion hyn gyffwrdd â hawliau o dan Erthygl 8 (yr hawl i barch am y teulu a bywyd preifat); Erthygl 9 (rhyddid crefydd, cydwybod a chred); Erthygl 11 (rhyddid gwybodaeth); Erthygl 14 (gwahardd gwahaniaethu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (Diogelu Eiddo). Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y gellir cyfiawnhau'r ymyrraeth, i'r graddau bod y cyfyngiadau a'r gofynion a orfodir gan y Rheoliadau yn ymwneud â'r hawliau hynny neu'n ymyrryd arnynt, gan fod yr ymyrraeth yn anelu at y nod dilys o ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o'r coronafeirws a'i ledaeniad ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'i bod yn gymesur i'r nod hwnnw. Mae'r gofynion i beidio â gadael yr ardal neu fynd iddi yn ddarostyngedig i esgus rhesymol gan berson i wneud hynny, sy'n cynnwys gallu defnyddio gwasanaethau hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus a darparu gofal i bobl sy'n agored i niwed.*

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Prif Reoliadau yn darparu ar gyfer adolygu'r angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau ar Fwrdeistref Rhondda Cynon Taf erbyn 24 Medi 2020 a bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

### **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**



Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus nac asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol mae hyn am y rhesymau a ganlyn:

- mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Prif Reoliadau;
- rhoddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wybod i Aelodau'r Senedd, mewn datganiad i'r Senedd ar 16 Medi 2020, o'r bwriad i osod y cyfyngiadau a'r gofynion ar Fwrdeistref Rhondda Cynon Taf; ac
- mae'r newidiadau i'r Prif Reoliadau wedi cael cyhoeddu'rwydd eang gan y cyfryngau.

## Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### Cynghorwyr Cyfreithiol

### Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

23 Medi 2020



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

Welsh Parliament

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Tudalen y pecyn 207

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 1007 (Cy. 224)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10)  
(Rhondda Cynon Taf) 2020**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau—

- (a) yn dynodi Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn ardal diogelu iechyd leol sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau a gofynion penodol;
- (b) yn gwneud mân ddiwygiadau, gan gynnwys darpariaethau ynghylch yr esgus rhesymol i ymgynnull o dan do ac i fynd i ardal diogelu

iechyd leol neu ei gadael, gyda'r bwriad o egluro bod rhoi gwaed a thriniaethau tebyg yn dod o fewn yr esgus rhesymol sy'n bodoli i gael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, sydd ynddo'i hun yn cynnwys cael gafael ar wasanaethau iechyd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 1007 (Cy. 224)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10)  
(Rhondda Cynon Taf) 2020**

*Gwnaed* am 1.04 p.m. ar 17 Medi 2020

*Gosodwyd* gerbron *Senedd*  
*Cymru* am 4.45 p.m. ar 17 Medi 2020

*Yn dod i rym* am 6.00 p.m. ar 17 Medi  
2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

---

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.



Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) (Rhondda Cynon Taf) 2020 a deuant i rym am 6.00 p.m. ar 17 Medi 2020.

### Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 14(2)—

- (a) yn is-baragraff (a), ar ôl “cael” mewnosoder “neu ddarparu”;
- (b) hepgorer is-baragraff (d).

(3) Yn rheoliad 14C—

- (a) yn y pennawd, yn lle “Ardal” rhodder “Ardaloedd”;
- (b) yn y rheoliad—
  - (i) yn lle “ardal” yn y lle cyntaf y mae'n digwydd rhodder “ardaloedd”;
  - (ii) yn lle “ardal honno” rhodder “ardaloedd hynny”.

---

(1) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/752 (Cy. 169)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/803 (Cy. 176)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/820 (Cy. 180)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/843 (Cy. 186)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/867 (Cy. 189)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/884 (Cy. 195)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/912 (Cy. 204)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) (Caerffili) 2020 (O.S. 2020/961 (Cy. 215)) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 (O.S. 2020/985 (Cy. 222)).

(4) Yn rheoliad 17—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn is-baragraff (c), yn lle “paragraffau (2) a (3)” rhodder “paragraff (2)”;

(ii) yn is-baragraff (d), yn lle “paragraffau (2) a (3)” rhodder “paragraff (2)”;

(b) ym mharagraff (2), ar ôl “12(2)” mewnosoder “, neu baragraff 7 o Atodlen 4A,”.

(5) Yn rheoliad 18(6A), yn y testun Cymraeg, hepgorer “neu” yn y lle cyntaf y mae’n digwydd.

(6) Yn rheoliad 20(1)(a), yn lle “baragraff 5(1) o Atodlen 4A” rhodder “baragraffau 5(1) neu 7(1) o Atodlen 4A”.

(7) Yn Atodlen 4A—

(a) yn lle paragraff 1 rhodder—

## “RHAN 1

### Ardaloedd diogelu iechyd lleol

#### **Ardaloedd diogelu iechyd lleol**

1. At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae’r ardaloedd a ganlyn yn ardaloedd diogelu iechyd lleol—

- (a) Bwrdeistref Sirol Caerffili;
- (b) Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

## RHAN 2

Cyfyngiadau sy’n gymwys mewn cysylltiad â phob ardal diogelu iechyd lleol  
”

(b) ar ddiwedd yr Atodlen mewnosoder—

## “RHAN 3

Cyfyngiadau nad ydynt yn gymwys ond mewn cysylltiad â Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

7.—(1) O ran person sy’n gyfrifol am fangre drwyddedig ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sydd wedi ei hawdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol i’w yfed yn y fangre—

- (a) rhaid iddo gau’r fangre am neu cyn 11.00 p.m. bob dydd, a
- (b) ni chaiff agor y fangre cyn 6.00 a.m. bob dydd.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn caniatáu i'r fangre drwyddedig fod ar agor yn groes i awdurdodiad sydd wedi ei ganiatáu neu ei roi mewn cysylltiad â'r fangre.

(3) Yn y paragraff hwn—

- (a) mae “mangre drwyddedig” yn fangre y mae awdurdodiad wedi ei ganiatáu neu ei roi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â hi;
- (b) mae i “awdurdodiad” yr ystyr a roddir i “authorisation” gan adran 136(5) o Ddeddf Trwyddedu 2003(1).”

*Mark Drakeford*

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru

Am 1.04 p.m. ar 17 Medi 2020

---

(1) 2003 p. 17.

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) (Rhondda Cynon Taf) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) (Rhondda Cynon Taf) 2020.

**Mark Drakeford**  
**Y Prif Weinidog**

17 Medi 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau sy'n cael eu gorfodi yn awr mewn perthynas ag ardal Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r cyfyngiadau a'r gofynion a orfodir gan y Rheoliadau erbyn 24 Medi, ac o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl hynny.

### Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae parhau i addasu'r gofynion a wnaed gan y Rheoliadau gwreiddiol drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur. Mae'r darpariaethau hyn yn cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae'r Rheoliadau'n gosod cyfyngiadau a gofynion mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol, a fydd at ddibenion y prif Reoliadau hefyd yn cynnwys ardal Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef yn benodol wahardd gadael yr ardal neu aros i ffwrdd o'r ardal neu fynd iddi heb esgus rhesymol; darparu nad oes unrhyw

aelwyd o fewn yr ardal yn cael ei thrin fel rhan o aelwyd estynedig a gwahardd aelwydydd o'r fath rhag ffurfio aelwydydd estynedig; a'i gwneud yn ofynnol i fangreuedd trwyddedig gau erbyn 11pm bob dydd. Bydd, neu gall, y cyfyngiadau a'r gofynion hyn gyffwrdd â hawliau o dan Erthygl 8 (yr hawl i barch am y teulu a bywyd preifat); Erthygl 9 (rhyddid crefydd, cydwybod a chred); Erthygl 11 (rhyddid gwybodaeth); Erthygl 14 (gwahardd gwahaniaethu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (Diogelu Eiddo). Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y gellir cyfiawnhau'r ymyrraeth, i'r graddau bod y cyfyngiadau a'r gofynion a orfodir gan y Rheoliadau yn ymwneud â'r hawliau hynny neu'n ymyrryd arnynt, gan fod yr ymyrraeth yn anelu at y nod dilys o ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o'r coronafeirws a'i ledaeniad ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'i bod yn gymesur i'r nod hwnnw. Mae'r gofynion i beidio â gadael yr ardal neu fynd iddi yn ddarostyngedig i esgus rhesymol gan berson i wneud hynny, sy'n cynnwys gallu defnyddio gwasanaethau hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus a darparu gofal i bobl sy'n agored i niwed. At hynny, rhaid i Weinidogion Cymru, erbyn 24 Medi, adolygu'r angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau a'u cymesuredd o ran yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, a gwneud hynny o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn ar gael yn y Memorandwm Esboniadol i'r prif Reoliadau.

### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Cafodd y prif Reoliadau eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Cafodd y prif Reoliadau eu diwygio<sup>1</sup> gydag effaith o 8 Medi 2020 i gyflwyno cyfyngiadau mewn perthynas ag 'ardal diogelu iechyd leol', a rhoi'r cyfyngiadau hynny ar waith yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r Rheoliadau hyn yn awr yn gwneud darpariaeth ar gyfer ardaloedd diogelu iechyd lleol, a fydd yn awr hefyd yn cynnwys Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Effaith hyn mewn perthynas â Chyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf yw:

- darparu na chaiff unrhyw aelwyd o fewn yr ardal gael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig a gwaherddir aelwyd o'r fath rhag ffurfio aelwyd estynedig;
- gwahardd personau sy'n byw yn yr ardal rhag gadael yr ardal neu aros i ffwrdd o'r ardal heb esgus rhesymol;

<sup>1</sup> Gweler Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) (Caerffili) 2020 OS 2020/961 (Cy. 215)

- ei gwneud yn ofynnol i drigolion yr ardal weithio gartref, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny;
- gwahardd pobl o'r tu allan i'r ardal rhag mynd i'r ardal heb esgus rhesymol. Nid yw mynd i'r ardal ar gyfer gwaith yn esgus rhesymol, os yw'n rhesymol ymarferol i'r gwaith hwnnw gael ei wneud y tu allan i'r ardal.

Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion hyn yr un fath â'r rhai sy'n weithredol ar gyfer ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ond, yn ardal Rhondda Cynon Taf rhaid hefyd i bob mangre drwyddedig gau erbyn 11pm bob nos a pheidio ag agor cyn 6am ar unrhyw fore.

Daw'r Rheoliadau i rym am 6.00 p.m. ar 17 Medi 2020. Rhaid adolygu'r cyfyngiadau a'r gofynion a gyflwynir gan y diwygiadau hyn mewn perthynas â Rhondda Cynon Taf ar 24 Medi, neu cyn y dyddiad hwnnw, ac o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau technegol a chanlyniadol i'r prif Reoliadau.

Mae'n hollbwysig cymryd pob mesur rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Asesiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r Prif Swyddogion Meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod cyflwyno'r gofynion a'r cyfyngiadau mewn perthynas ag ardal Rhondda Cynon Taf drwy wneud y diwygiadau i'r prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y mae'r prif Reoliadau'n ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fgythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## **5. Ymgynghori**

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Yn ehangach, cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau drwy ddarllediadau gwybodaeth i'r cyhoedd parhaus ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a minnau. Wrth wneud y Rheoliadau yr wythnos hon fe fu trafodaethau rheolaidd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr awdurdod lleol a chyrrff y GIG ar gyfer ardal Rhondda Cynon Taf.

Ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Rhoddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wybod i Aelodau'r Senedd, mewn datganiad i'r Senedd ar 16 Medi, o'r bwriad i osod y cyfyngiadau a'r gofynion a gyflawnir drwy'r Rheoliadau a wneir heddiw. Mae'r newidiadau arfaethedig hefyd wedi cael cyhoeddusrwydd eang gan y cyfryngau.

## **6. Asesiad effaith rheoleiddiol ac asesiadau eraill**

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder fel rhan o'r ymateb parhaus i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.





Elin Jones AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

17 Medi 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) (Rhondda Cynon Taf) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) (Rhondda Cynon Taf) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 6.00 pm heddiw. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 13 Hydref 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn sesiwn adalw'r Cyfarfod Llawn ar 29 Medi 2020.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Y.P.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:Y.P.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

---

**TEITL** Diweddariad ar COVID-19

**DYDDIAD** 16 Medi 2020

**GAN** Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y sefyllfa yn y pedair ardal awdurdod lleol lle rydym wedi bod yn monitro'n agos y cynnydd mewn achosion o'r coronafeirws, sef:

- Caerffili
- Rhondda Cynon Taf
- Merthyr Tudful
- Casnewydd

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd gennym yn awgrymu bod y sefyllfa ym **Merthyr Tudful** yn sefydlog, ac rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa yng **Nghasnewydd** yn agos, yn dadansoddi canlyniadau'r profion diweddaraf, yr wybodaeth gan y timau olrhain cysylltiadau ac yn gweithio gyda'r awdurdod lleol ac arbenigwyr iechyd y cyhoedd.

Hoffwn ganolbwyntio nawr ar y sefyllfa sy'n datblygu yn **Rhondda Cynon Taf**, lle, yn anffodus, rydym wedi parhau i weld cynnydd cyflym yn nifer yr achosion. Rydym hefyd nawr yn gweld tystiolaeth o drosglwyddiad cymunedol.

- Mae hyn er gwaetha'r mesurau y gofynnodd yr awdurdod lleol i'r trigolion eu cymryd yn wirfoddol er mwyn rheoli lledaeniad y feirws.

Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod y gyfradd achosion newydd dros saith diwrnod yn awr yn 82.1 ym mhob 100,000 o bobl yn Rhondda Cynon Taf. Ddoe, roedd y gyfradd a gafodd brawf positif yn 4.3% – sef y gyfradd uchaf o achosion positif yng Nghymru.

Mae ein timau olrhain cysylltiadau wedi gallu olrhain tua hanner yr achosion hyn yn ôl i gyfres o glystyrau yn y fwrdeistref. Mae'r gweddill yn gysylltiedig â throsglwyddiad cymunedol.

Mae sawl clwstwr o achosion yn Rhondda Cynon Taf, a dau ohonynt yn rhai arwyddocaol. Mae un yn gysylltiedig â chlwb rygbi a thafarn yng Nghwm Rhondda isaf a'r llall yn gysylltiedig â thaith clwb i rasys Doncaster, wnaeth alw mewn cyfres o dafarndai ar y ffordd.

Yn yr un modd â bwrdeistref Caerffili, rydym wedi gweld cynnydd cyflym yn nifer yr achosion dros gyfnod byr, sy'n bennaf yn gysylltiedig â phobl yn cymdeithasu heb gadw pellter cymdeithasol ac yn cwrdd yng nghartrefi ei gilydd. Rydym hefyd wedi gweld rhai achosion sy'n gysylltiedig â phobl yn dychwelyd o wyliau tramor.

Mae'r awdurdod lleol wedi mynd ati'n rhagweithiol i ymweld ag eiddo ledled y fwrdeistref dros yr wythnos ddiweddaraf i weld a ydynt yn cydymffurfio â'r gyfraith a'r mesurau y mae angen i bob un ohonom eu dilyn er mwyn diogelu ein gilydd rhag y coronafeirws.

Mae'r gwiriadau hyn wedi arwain at roi hysbysiadau gwelliant i saith archfarchnad, sydd wedi cydymffurfio â'r hysbysiadau hyn.

- Caewyd bar ym Mhontypridd ar ôl i deledu cylch cyfyng gofnodi nifer o achosion o bobl yn torri'r mesurau; caewyd eiddo trwyddedig yn Nhonypandy, ac mae hysbysiadau gwelliant wedi cael eu rhoi i far arall ym Mhontypridd a siop barbwr yn Nhonypandy.

Aeth swyddogion o'r cyngor i 50 eiddo trwyddedig arall dros y penwythnos, ac mae'n debygol y bydd mwy o gamau gorfodi - naill ai hysbysiadau gwelliant neu orchmynion i gau - yn dilyn.

Gyda'i gilydd, mae'r cynnydd cyflym hwn yn nifer yr achosion gyda thystiolaeth o drosglwyddiad cymunedol ledled Rhondda Cynon Taf, a thystiolaeth nad yw nifer o eiddo trwyddedig yn y fwrdeistref yn cydymffurfio â'r mesurau, yn golygu bod angen i ni gyflwyno

cyfyngiadau lleol yn yr ardal er mwyn rheoli'r feirws, ac yn y pen draw lleihau lledaeniad y feirws a diogelu iechyd pobl.

Gan fod achos y trosglwyddo yn debyg i'r hyn a welwyd ym mwrdeistref Caerffili, bydd y cyfyngiadau yn debyg.

Bydd camau'n cael eu cymryd i atal eiddo trwyddedig yn Rhondda Cynon Taf rhag aros ar agor yn hwyr.

O 6pm yfory, daw'r cyfyngiadau lleol canlynol i rym ar gyfer pobl sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf:

- Ni fydd pobl yn cael dod i mewn i ardal Cyngor Rhondda Cynon Taf, na gadael yr ardal, heb esgus rhesymol, fel teithio i'r gwaith neu i gael addysg
- Dim ond yn yr awyr agored y bydd pobl yn cael cwrdd am y tro. Ni chaiff pobl gwrdd ag aelodau o'u haelwyd estynedig o dan do, na ffurfio aelwyd estynedig chwaith
- Bydd yn rhaid i bob eiddo trwyddedig gau am 11pm yn Rhondda Cynon Taf
- Bydd rhaid i bawb dros 11 oed wisgo gorchudd wyneb mewn mannau o dan do – fel yng ngweddill Cymru.

Byddwn yn parhau i adolygu'r mesurau hyn yn gyson, a chânt eu hadolygu'n ffurfiol mewn pythefnos.

## SL(5)616 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020

### Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol ledled Cymru, drwy roi cyfarwyddiadau i bobl berthnasol, i:

- gau mangreoedd unigol neu osod cyfyngiadau neu ofynion mewn perthynas â defnyddio'r mangreoedd, mynediad iddynt neu nifer y bobl ynddynt;
- wahardd digwyddiadau penodol (neu fathau o ddigwyddiadau) rhag cael eu cynnal neu osod cyfyngiadau neu ofynion mewn perthynas â chynnal y digwyddiad, mynediad iddo neu nifer y bobl a fydd yn bresennol;
- gyfyngu ar fynediad i fannau cyhoeddus yn yr awyr agored neu eu cau (neu fathau o fannau cyhoeddus yn yr awyr agored).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn parhau â dyletswydd sydd wedi ei rhoi yn flaenorol ar awdurdodau lleol, awdurdod Parc Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gau llwybrau troed cyhoeddus a thir sy'n hygyrch i'r cyhoedd yng Nghymru a allai ddenu nifer o bobl gan arwain at risg uchel o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020 (y Rheoliadau Gwreiddiol) oherwydd methiant i gofnodi'n briodol (yn yr offeryn ei hun) ddatganiad Gweinidogion Cymru bod y Rheoliadau Gwreiddiol ar frys, yn unol ag adran 45R(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (Deddf 1983).

### Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

### Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Daeth y Rheoliadau hyn i rym cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rydym yn nodi'r esboniad a ddarparwyd gan Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog, mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 17 Medi 2020, sy'n nodi:

*"Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020, a ddaw i rym ddechrau 18 Medi 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru."*

Nid yw'r llythyr yn cynnwys esboniad o ran pam y mae angen i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn iddynt gael eu gosod, er ein bod yn cydnabod bod hyn yn debygol o fod er mwyn cywiro'r sefyllfa o dan y Rheoliadau Gwreiddiol ar frys a sicrhau bod y swyddogaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau hyn ar gael yn gyflym i awdurdodau lleol.

### **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn ddefnyddiol wrth egluro:

*"Mae Llywodraeth Cymru yn cadw cysylltiad agos ag awdurdodau lleol ar weithredu a gorfodi'r cyfyngiadau coronafeirws, ac ar ôl gwirio gyda hwy nid ydynt yn ymwybodol o unrhyw gyfarwyddiadau sy'n cael eu rhoi o dan y Rheoliadau gwreiddiol ers iddynt ddod i rym. Yn ogystal, nid yw Gweinidogion Cymru wedi cael unrhyw hysbysiadau o gyfarwyddiadau, fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau hynny."*

### **3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch cyfarwyddiadau o dan Ran 2. Mae nifer o ddarpariaethau y mae'n ymddangos y byddent yn elwa o gael esboniad pellach a fyddai'n cael eu nodi mewn canllawiau o'r fath, er enghraifft, arwydd o'r hyn sy'n gyfystyr â "seilwaith allweddol" at ddibenion rheoliad 5(3), "nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol" at ddibenion rheoliad 5(5) neu "esgus rhesymol" dros weithredu yn groes i gyfarwyddyd.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae adran "Gorfodi a dirwyon" o'r rheoliadau Coronafeirws: cwestiynau cyffredin gwefan Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y drefn gorfodi a dirwyon o dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020,



ond nid y Rheoliadau hyn. Mae'r dudalen yn nodi y cafodd ei diweddarau ddiwethaf ar 14 Medi 2020.

Nid yw'n ymddangos bod y canllawiau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, neu o leiaf nad ydynt yn hawdd eu canfod.

Credwn y byddai sicrhau bod y canllawiau ar gael, neu'n haws i'w canfod, yn gymorth defnyddiol i awdurdodau lleol a'r cyhoedd sydd am ddeall effaith y Rheoliadau hyn.

#### **4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i roi rhybudd ymlaen llaw o gyfarwyddyd mangre, cyfarwyddyd digwyddiad neu gyfarwyddyd man cyhoeddus. Rhaid rhoi'r rhybudd ymlaen llaw hwnnw:

mewn perthynas â chyfarwyddyd mangre, i berson sy'n cynnal busnes o'r fangre ac, os yw'n wahanol, unrhyw berson sy'n berchen ar y fangre neu sy'n meddiannu'r fangre;

mewn perthynas â chyfarwyddyd digwyddiad, i berson sy'n ymwneud â threfnu'r digwyddiad ac, os yw'n wahanol, unrhyw berson sy'n berchen ar y fangre neu sy'n meddiannu'r fangre lle y mae'r digwyddiad yn digwydd; ac

mewn perthynas â chyfarwyddyd man cyhoeddus, i bersonau sy'n cynnal busnes o'r fangre o fewn y man cyhoeddus a chan sicrhau y dygir y cyfarwyddyd i sylw unrhyw berson sy'n berchen ar unrhyw fangre yn y man cyhoeddus, sy'n meddiannu unrhyw fangre ynddo neu sy'n gyfrifol am unrhyw fangre ynddo.

Mae Rheoliad 11 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi cyfarwyddyd:

yn achos cyfarwyddyd mangre, i berson sy'n cynnal busnes o'r fangre ac, os yw'n wahanol, person sy'n berchen ar y fangre, sy'n meddiannu'r fangre neu sydd fel arall yn gyfrifol am y fangre;

yn achos cyfarwyddyd digwyddiad, i berson sy'n ymwneud â threfnu'r digwyddiad ac, os yw'n wahanol, person sy'n berchen ar y fangre lle y mae'r digwyddiad yn digwydd neu lle y bwriedir iddo ddigwydd, sy'n meddiannu'r fangre honno neu sydd fel arall yn gyfrifol am y fangre honno; ac

yn achos cyfarwyddyd man cyhoeddus, i berson sy'n cynnal busnes o fangre o fewn y man cyhoeddus a phob person sy'n berchen ar unrhyw fangre yn y man cyhoeddus, sy'n meddiannu unrhyw fangre yn y man cyhoeddus neu sydd fel arall yn gyfrifol am unrhyw fangre yn y man cyhoeddus.

Mae Rheoliad 12 yn darparu ar gyfer person â chanddo fuddiant i apelio i Lys yr Ynadon yn erbyn cyfarwyddyd neu i gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ynghylch y cyfarwyddyd. Y diffiniad o "berson a chanddo fuddiant" yw:



yn achos cyfarwyddyd mangre, person sy'n cynnal busnes o'r fangre ac, os yw'n wahanol, person sy'n berchen ar y fangre neu sy'n meddiannu'r fangre;

yn achos cyfarwyddyd digwyddiad, person sy'n ymwneud â threfnu'r digwyddiad ac, os yw'n wahanol, person sy'n berchen ar y fangre lle y mae'r digwyddiad yn digwydd neu lle y bwriedir iddo ddigwydd neu sy'n meddiannu'r fangre honno; ac

yn achos cyfarwyddyd man cyhoeddus, person sy'n cynnal busnes o fangre o fewn y man cyhoeddus a phob person sy'n berchen ar unrhyw fangre yn y man cyhoeddus, sy'n meddiannu unrhyw fangre yn y man cyhoeddus neu sydd fel arall yn gyfrifol am unrhyw fangre yn y man cyhoeddus.

Defnyddir yr ymadrodd "neu sydd fel arall yn gyfrifol am y fangre" mewn rhai, ond nid pob un, o'r rheoliadau sy'n ymwneud â gwneud rheoliadau. Mae'n ymddangos bod defnyddio'r ymadrodd hwnnw mewn rhai rheoliadau yn awgrymu bod gwahaniaeth rhwng personau sy'n berchen ar fangre ac yn ei meddiannu, a'r rhai sy'n gyfrifol am fangre. Os felly, gall person sy'n gyfrifol am fangre, ond nad yw'n berchen ar y fangre neu'n meddiannu'r fangre honno:

gael hysbysiad ymlaen llaw dim ond mewn perthynas â chyfarwyddyd man cyhoeddus; cael cyfarwyddyd mangre, cyfarwyddyd digwyddiad neu gyfarwyddyd man cyhoeddus; a dim ond apelio neu gyflwyno sylwadau mewn perthynas â chyfarwyddyd man cyhoeddus.

Mae'n ymddangos bod hyn yn awgrymu gwahaniaeth yn y modd yr ymdrinnir â'r mathau o rybudd mewn perthynas â phob un o'r materion hyn, ond nid yw'n glir pam mae'r gwahaniaethu hwn yn angenrheidiol.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi cael ei baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar frys fel rhan o'r ymateb parhaus i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Mae asesiad effaith integredig yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei gyhoeddi maes o law.



Elin Jones, MS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

17 Medi 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020, a ddaw i rym ddechrau 14 Medi 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yw wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 14 Hydref 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn sesiwn adalw'r Cyfarfod Llawn ar 29 Medi 2020. Noder y bydd y Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020 a wnaed ar 11 Medi ac sydd i'w trafod ar 22 Medi 2020. Bydd y cynnig ar gyfer y ddadl honno'n cael ei dynnu'n ôl yfory.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 254  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# SL(5)588 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

## Eitem 4.1

### Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol")

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac nid oes yn rhaid i bersonau sy'n teithio i Gymru ar ôl bod yn un neu fwy o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u hesemptio gydymffurfio â'r angen i ynysu.

### Gweithdrefn

Negyddol.

### Materion technegol:

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### Rhinweddau: craffu

Cafodd y ddau bwynt a ganlyn eu nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

#### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Daeth y Rheoliadau hyn i rym y diwrnod cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Dyma achos o dorri'r rheol 21 diwrnod (hynny yw, y rheol sy'n nodi y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y caiff offeryn 'gwnaed negyddol' ei osod gerbron y Senedd a'r dyddiad y mae'r offeryn hwnnw yn dod i rym). Rydym yn nodi'r esboniad a roddwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 27 Gorffennaf 2020, sy'n nodi fel a ganlyn:

*Bu'n rhaid dileu Sbaen ar frys o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 yn dilyn cyngor sy'n dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil teithio i mewn o Sbaen wedi codi.*

*Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod a dod â hwy i rym cyn iddynt gael eu gosod, yn caniatáu i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.*

#### **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ar 8 Mehefin 2020, rhoddodd Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, dystiolaeth i ni ar y cyfyngiadau yng Nghymru. Dywedodd y canlynol: "We actually want to have



something that helps the public to understand how they can follow the rules, and that's why the guidance is really important as well".

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, caiff defnyddwyr gwefan Llywodraeth Cymru sy'n clicio ar y linc i weld canllawiau ynghylch "*teithio tramor a dychwelyd adref*" eu cyfeirio at wefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae gwefan Llywodraeth y DU yn rhoi cyngor ar dychwelyd i'r Deyrnas Unedig, cyn cyfeirio'r darlennydd yn ôl at wefan Llywodraeth Cymru i weld canllawiau ar hunan-ynysu yng Nghymru.

Mae tudalen Llywodraeth y DU yn cynnwys linc i ganllawiau Llywodraeth Cymru, "*How to self-isolate when you travel to Wales: coronavirus (COVID-19)*", neu "*Sut i hunanynysu pan fyddwch yn teithio i Gymru: coronavirus (COVID-19)*" ar yr ochr Gymraeg. Hefyd, gellir cael mynediad at y wybodaeth hon yn uniongyrchol drwy wefan Llywodraeth Cymru fel rhan o'r pecyn o wybodaeth sydd â'r teitl "Teithio: coronafeirws". Mae'n nodi fel a ganlyn: "*os byddwch yn cyrraedd y DU a'ch bod wedi bod y tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin o fewn y 14 diwrnod diwethaf, yna bydd angen ichi hunanynysu am weddill y cyfnod o 14 diwrnod, gan ddechrau'r o'r adeg pan wnaethoch gyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin*". Cafodd y wybodaeth hon ei diweddarau ar 7 Mehefin 2020. Fodd bynnag, ers 10 Gorffennaf 2020, nid yw'n ofynnol i deithwyr o wledydd sydd wedi'u hesemptio y tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin hunan-ynysu.

Fodd bynnag, mae canllawiau Llywodraeth Cymru, "*Teithwyr sydd wedi eu heithrio rhag hunanynysu: coronafeirws (COVID-19)*", wedi'u diweddarau bellach, gan gynnwys rhestr o wledydd sydd wedi'u hesemptio. Nid yw Sbaen wedi'i chynnwys ar y rhestr hon.

Er y gallai pobl sy'n darllen y canllawiau weithio allan yn y diwedd beth y mae'r gyfraith yn ei ddweud am dychwelyd i Gymru o dramor, nid yw'r canllawiau'n glir nac yn rhwydd cael mynediad atynt, ac mae hyn yn debygol o ddrysu rhai darllenwyr.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen i Lywodraeth Cymru ymateb i'r ail bwynt adrodd o ran rhinweddau.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod 3 Awst 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



**YMATEB Y LLYWODRAETH: RHEOLIADAU DIOGELU IECHYD (CORONAFEIRWS, TEITHIO RHYNGWLDOL) (CYMRU) (DIWYGIO) (RHIF 2) 2020**

1. Dyma ymateb y Llywodraeth i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig 29 Gorffennaf 2020.

**Pwyntiau craffu technegol:**

2. Dim materion yn codi.

**Pwyntiau craffu ar rinweddau:**

*Mynediad at ganllawiau*

3. Mae'r Llywodraeth yn nodi'r sylwadau yn yr adroddiad drafft ynghylch cael mynediad at ganllawiau, ond mae'r canllawiau cywir ar esemptiadau ar gyfer gwledydd a thiriogaethau penodol wedi bod ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ers 16 Gorffennaf. Diwygiwyd y canllawiau ar 27 Gorffennaf er mwyn hepgor Sbaen o'r rhestr yn dilyn y newid yn ei statws.



Ein cyf/Our ref:

At: Cadeiryddion Pwyllgorau

21 Medi 2020

Annwyl Bawb,

Yn dilyn ymgynghori eang ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol y flwyddyn nesaf, rwyf heddiw wedi cyflwyno'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft gerbron y Senedd ar gyfer y cyfnod ystyriaeth 60 niwrnod.

Daw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gydag adroddiad ymgynghori sy'n pennu'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, amserlen o newidiadau yr wyf yn bwriadu eu gwneud wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwerthusiad cynaliadwyedd integredig wedi'i ddiweddarau. Maent i'w gweld yn y fan [yma](#).

I helpu â'r broses graffu, rwyf wedi cyhoeddi dwy ddogfen heddiw. Mae'r gyntaf yn esbonio sut yr wyf am fonitro'r Fframwaith ar ôl ei gyhoeddi; ac mae'r ail yn fersiwn o'r ddogfen rhestru newidiadau gafodd ei osod yn yr un fformat â fersiwn ddrafft y Fframwaith yr ymgynghorwyd arno llynedd. Mae'r dogfennau i'w gweld yn y fan [yma](#)

Byddaf yn cyflwyno cynnig i'w ddiwygio o fewn amser y Llywodraeth i roi cyfle i'r Senedd fynegi ei barn ar (ond nid gymeradwyo) y Cynllun Datblygu Drafft. Cynhelir y drafodaeth yn ystod cyfnod ystyried y Senedd o 60 niwrnod fel y gall y Llywodraeth ystyried y materion a godwyd yn ogystal ag unrhyw argymhellion gan Bwyllgorau'r Senedd o fewn cyfnod addas.

Yn ystod yr ymgynghoriad y llynedd ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft, tynnodd aelodau'r Senedd fy sylw at ba mor bwysig oedd i bawb allu deall beth yw'r Fframwaith a'r hyn mae'n ei olygu iddyn nhw. Roedd rhai o'r farn nad oedd yr enw 'fframwaith datblygu cenedlaethol' yn egluro beth oedd y Fframwaith na beth oedd ei ddiben. Rwyf wedi meddwl am y mater hwn ac wedi gofyn i Blant yng Nghymru helpu i ddatblygu teitl newydd. Gwnaethon nhw awgrymu 'Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040'. Pan fydd yn cael ei gyhoeddi dyma fydd enw newydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, gyda'r talfyriad 'Cymru'r Dyfodol' yn gael ei ddefnyddio. Byddwch yn gweld yr enw newydd hwn mewn rhai o'r dogfennau a ddefnyddir yn ystod y broses graffu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 258  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Dw i'n edrych ymlaen at gydweithio â'r Senedd ar gwblhau Cymru'r Dyfodol, ein Fframwaith Datblygu Cenedlaethol cyntaf.

Yn gywir,



---

**Julie James AS/MS**  
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE/316/20

Mick Antoniw AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

21 Medi 2020

Annwyl Mick,

Diolch am eich llythyr ynghylch Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020.

Rydych wedi gofyn a allai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi cyfiawnhad pellach dros y rhesymeg y tu ôl i'r newidiadau polisi a gyflwynwyd gan y Rheoliadau, yn benodol yng nghyd-destun hawliau dynol.

Er budd llywodraethu mewn modd sy'n dryloyw ac atebolrwydd, mae Llywodraeth Cymru bob amser yn ymwybodol o'r angen i egluro'n llawn y rhesymau y tu ôl i unrhyw benderfyniad y mae'n ei gwneud. Yn achos y Rheoliadau hyn, mae'r sail resymegol y tu ôl i'r newidiadau i'w weld yn glir mewn adran o'r Memorandwm Esboniadol, sef Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael. Hefyd, mae'r hyn a geir o dan Costau a Manteision yn yr adran Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn y ddogfen honno yn edrych ar y modd y gwnaeth Llywodraeth Cymru gydbwyso'r dadleuon o blaid gwneud y newidiadau a'r dadleuon yn erbyn. Rydym yn fodlon bod y Rheoliadau'n cyd-fynd â'r Confensiwn fel y nodir yn y dogfennau uchod, ac nid oes gennyf ddim i'w ychwanegu at hynny.

Wedi dweud hynny, hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor at y crynodeb o'r asesiad effaith integredig sydd wedi'i gyhoeddi, rhag ofn bod hynny'n rhoi rhagor o fanylion i chi. Dyma'r ddolen at yr asesiad effaith integredig:

<https://llyw.cymru/diwygio-tenantiaethau-sicr-thenantiaethau-byrddaliadol-sicr-asesiad-effaith-integredig>

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 260  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol  
Cymru

18 Medi 2020

Annwyl Simon

### **Bil Marchnad Fewnol y DU**

Rwy'n ysgrifennu ynglŷn â sut, ym marn Llywodraeth y DU, y caiff Confensiwn Sewel ei gymhwyso i Fil Marchnad Fewnol y DU.



Mae paragraffau 87-89 ac Atodiad A o'r Nodiadau Esboniadol i Fil Marchnad Fewnol y DU yn darparu bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer pob Rhan o'r Bil a nodir bod y cydsyniad hwn wedi cael ei geisio. O'r herwydd, byddem yn disgwyl na fyddai Llywodraeth y DU yn ceisio pasio'r Bil heb gydsyniad y Senedd.

I lywio ein hystyriaeth o'r Bil a'n hymchwiliad ehangach i'r newid yng nghyfansoddiad Cymru, byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a ydych yn cyd-fynd â'r asesiad hwn ac yn cadarnhau na fydd y sefyllfa hon yn newid os bydd y Bil yn cadw'r un bwriad, fel y'i cyflwynwyd.



Rydym yn codi'r pwynt diwethaf oherwydd eich tystiolaeth inni ar **9 Mawrth**; yng nghydestun Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael), dywedasoch: "in this particular instance, 'not normal' emerged as the theme as it became more obvious that the LCM wouldn't get through this place, and indeed through the Scottish Parliament."



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddDCC@senedd.cymru  
 0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddLJC@senedd.wales  
 0300 200 6565

Os nad ydych yn cytuno â'n hasesiad, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym pryd, ac ar ba sail, y bydd Llywodraeth y DU yn gallu rhoi gwybod a yw'r Bil, at ddibenion confensiwn Sewel, yn "normal" ai peidio.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS**

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.  
We welcome correspondence in Welsh or English.

Cc:

Y Gwir Anrhydeddus Alok Sharma AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

David Rees AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Senedd Cymru

Bruce Crawford ASA, Cynullydd, Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban  
Colin McGrath MLA, Cadeirydd Pwyllgor y Swyddfa Weithredol, Cynulliad Gogledd Iwerddon

Y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS, Pwyllgor Materion Cymru, Tŷ'r Cyffredin  
William Wragg AS, Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol, Tŷ'r Cyffredin

Y Gwir Anrhydeddus y Farwnes Taylor o Bolton, Cadeirydd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi





Northern Ireland  
Assembly

## Committee for the Executive Office

The Rt Hon Simon Hart MP  
Secretary of State for Wales  
[secretary.state@ukgovwales.gov.uk](mailto:secretary.state@ukgovwales.gov.uk)

24 September 2020

Dear Simon

### UK Internal Market Bill

At its meeting on 23 September 2020, the Northern Ireland Assembly Committee for the Executive Office considered a copy of correspondence to you, dated 18 September 2020, from Mick Antoniw MS, Chair of the Welsh Parliament Legislation, Justice and Constitution Committee, seeking the UK Government's understanding of the application of the Sewel Convention to the UK Internal Market Bill.

The Committee for the Executive Office is also keen to know the UK Government's understanding on this issue and has requested that it is copied into your response to the Chair of the Legislation, Justice and Constitution Committee.

Yours sincerely

**Colin McGrath MLA**  
**Chairperson, Committee for the Executive Office**

cc. Mick Antoniw MS, Chair of Legislation, Justice and Constitution Committee

Committee for the Executive Office  
Room 375a, Parliament Buildings, Ballymiscaw, Stormont, Belfast, BT4 3XX  
Telephone: (028) 9052 1019

E-mail: [Committee.Executive@niassembly.gov.uk](mailto:Committee.Executive@niassembly.gov.uk)

David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Mick Antoniw AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

24 Medi 2020

Annwyl David a Mick,

### **Craffu ar drefniadau ymadael â'r UE**

Ymhellach i'r **ohebiaeth** gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd dyddiedig 20 Gorffennaf, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi bod yn trafod sut y bydd y newidiadau sylweddol a ddaw yn sgil Brexit yn effeithio ar y cyllid sydd ar gael yng Nghymru, a'n rôl o ran craffu ar y newidiadau hyn.

Mae'n amlwg y bydd newidiadau i raglenni cyllid, y cynigion ynghylch y farchnad fewnol a deddfwriaeth ymadael â'r UE yn effeithio ar gylch gwaith pob un o'n Pwyllgorau, ac rwyf am ystyried sut y gall gwaith y Pwyllgor Cyllid ychwanegu gwerth i'r gwaith sydd gennych chi ar y gweill ar hyn o bryd. Yn ogystal, gallai fod yn ddefnyddiol inni ystyried a allai gwaith craffu ar y cyd fod yn ddefnydd effeithiol o amser y Pwyllgorau a'r Gweinidogion.

Byddwn yn croesawu cael eich barn ynghylch a fyddai gwaith ar cyd yn ddefnyddiol ac ynghylch unrhyw ffordd eraill y gall gwaith y Pwyllgor Cyllid ategu gwaith eich Pwyllgorau.



Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN



SeneddCyllid@senedd.cymru



0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN



SeneddFinance@senedd.wales



0300 200 6565

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## CYNNIG CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL Y BIL MEDDYGINIAETHAU A DYFEISIAU MEDDYGOL

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Senedd os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13 Chwefror 2020. Gellir cael copi o'r Bil yn:  
<https://services.parliament.uk/bills/2019-21/medicinesandmedicaldevices.html>

### Amcanion Polisi

3. Y diben a nodwyd ar gyfer y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol yw disodli darpariaeth adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, a gaiff ei diddymu ar yr adeg y bydd y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a chreu pwerau er mwyn galluogi i'r prif drefniadau ar gyfer rheoleiddio meddyginiaethau dynol, treialon clinigol dynol, dyfeisiau meddygol a meddyginiaethau milfeddygol barhau ar ôl Brexit.

### Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
5. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer:
  - Cyflwyno pwerau dirprwyedig wedi'u targedu ym meysydd meddyginiaethau dynol, meddyginiaethau milfeddygol a dyfeisiau meddygol, gan ddisgwyl yr adeg pan fydd y DU yn ymadael â'r UE;
  - Pŵer dirprwyedig i sefydlu un neu ragor o systemau gwybodaeth mewn perthynas â dyfeisiau meddygol;
  - Cydgrynhoi'r darpariaethau gorfodi ar gyfer dyfeisiau meddygol a chyflwyno sancsiynau;
  - Porth gwybodaeth er mwyn galluogi i wybodaeth a gaiff ei dal gan yr Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â dyfeisiau meddygol gael ei rhannu er mwyn rhybuddio'r cyhoedd ynglŷn â phryderon diogelwch.

### Y darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

6. Mae'r darpariaethau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'w cael yng Nghymal 16 yn fersiwn cyfnod Adroddiad Tŷ'r Cyffredin o'r Bil, a Chymal 16 o'r Bil Tŷ'r Arglwyddi sy'n rhoi pŵer dirprwyedig i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wneud rheoliadau ar gyfer cronfa ddata o wybodaeth mewn perthynas â dyfeisiau meddygol i'w sefydlu a'i



rheoli gan NHS Digital, nad oedd ganddo gylch gwaith mewn perthynas â Chymru cyn hyn.

7. Diben y ddarpariaeth a nodir uchod (cymal 16) yw gwella diogelwch a safonau dyfeisiau meddygol trwy sicrhau y gellir dal a rhannu gwybodaeth well ynghylch perfformiad dyfeisiau mewnblanedig er mwyn nodi risgiau dyfeisiau penodol yn gynnar. Byddai hyn yn gymwys i'r GIG a darparwyr iechedd preifat yng Nghymru. Trwy wella'r data sydd ar gael ar ddyfeisiau meddygol fel rhan o waith gwylidwraeth ar ôl rhyddhau dyfeisiau ar y farchnad, bydd yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) yn fwy galluog i gymryd camau yn gynharach ac yn fwy effeithiol fel rhan o'i gwaith o reoleiddio dyfeisiau yn y DU, gan gynnwys Cymru.
8. Byddai hefyd yn golygu os ceir achos o alw dyfais yn ôl, byddai'n bosibl nodi'n gyflym pa ddyfeisiau oedd wedi cael eu mewnblannu i gleifion penodol. Trwy sefydlu cofrestrfa byddai storfa ar gyfer y DU gyfan, yn dal data ar amrywiaeth ehangach o achosion ac yn adlewyrchu ystod amrywiol o arferion clinigol, yn debygol o fod yn fwy effeithiol ar gyfer creu dysgu na chorff llai yn canolbwyntio ar Gymru.
9. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn gwneud darpariaeth eang ynghylch sefydlu systemau gwybodaeth, a'u gweithrediaeth, yn eang iawn. Gall y pŵer gael ei ddefnyddio ar gyfer materion a gedwir yn ôl, yn ymwneud â rheoleiddio dyfeisiau meddygol a'u diogelwch, ond gellid ei ddefnyddio hefyd at ddibenion iechedd nad ydynt yn ymwneud â diogelwch cynhyrchion ac sydd wedi eu datganoli, fel gwella canlyniadau gofal iechedd cleifion. Ar y sail hon, mae diben cymal 16 yn berthnasol i faterion na chedwir yn ôl. Ystyriwn felly fod y ddarpariaeth hon o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac fel y cyfryw ystyrir bod cydsyniad y Senedd yn ofynnol mewn perthynas â hi.

### **Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol**

10. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi nodau'r Bil ac yn gyffredinol yn cefnogi'r egwyddorion sy'n sail i gymal 16.
11. Mewn perthynas â chymal 16, mae absenoldeb data a gwybodaeth am y rhai sydd wedi cael mewnblaniadau llawfeddygol ac sydd wedi cael cymhlethdodau wedi bod yn broblem ddiweddar sylweddol yn achos nifer fawr o fenywod o Gymru a gafodd lawdriniaethau rhwyll y wain. Arweiniodd y diffyg data perthnasol at anweledigrwydd y broblem am nifer o flynyddoedd a phrinder camau adferol nes i dîm adolygu Cumberledge yn 2018 ohirio rhai llawdriniaethau rhwyll y wain nes i chwe amod gael eu bodloni gan gynnwys darparu data gwell ar ddyfeisiau wedi'u mewnblannu a sefydlu cofrestrfa o ddyfeisiau wedi'u mewnblannu.

12. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cael rhywfaint o gyfle i gyfrannu at gynigion casglu data DHSC ac ystyrir bod cynllunio a gweithredu cofrestrfa Cymru yn annhebygol o fod yn ddichonadwy o fewn amserlen resymol ac am gost gymaradwy. Hefyd, ni fyddai gan Gofrestrfa i Gymru yn unig y manteision o ran ehangder y data sydd ar gael a'r cyfleoedd ar gyfer dysgu, a amlinellir ym mharagraff 8 uchod, a fyddai'n cael eu gwireddu gyda Chofrestrfa i'r DU gyfan.
13. Hefyd, nid oes lle yn rhaglen deddfwriaethol bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil sy'n gwneud darpariaeth i Gymru ar y materion hyn, ac nid oes unrhyw Fil ychwaith yn y rhaglen y gellid cynnwys darpariaethau o'r fath ynddo.
14. Er hynny, mae nifer o bryderon eraill wedi'u codi gyda Llywodraeth y DU. Caiff gwaith i ddatrys y pryderon hyn ei symud ymlaen wrth i'r Bil barhau ei hynt trwy'r Senedd ac, os bydd angen, caiff Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ei gyflwyno ar yr adeg briodol.

### **Goblygiadau Ariannol**

15. Diben y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yw rhoi gwybod i'r Pwyllgor Busnes ac Aelodau'r Senedd bod y darpariaethau DHSC yn effeithio ar bwerau Gweinidogion Cymru ac felly ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol. Gan mai pwerau galluogi yw'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â sefydlu systemau gwybodaeth, bydd y Rheoliadau yn darparu'r manylion ynghylch sut y caiff y systemau gwybodaeth eu sefydlu a'u gweithredu a'r rôl a fydd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â hwy. Mae cynlluniau presennol yr adran yn rhag-weld y caiff y Rheoliadau eu trafod a'u drafftio ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol, ac mae'n debygol mai yn 2021 y bydd hyn.
16. Mae'r DHSC wedi cyflwyno nifer o gynigion darluniadol heb eu meintioli ar gyfer sut y gellid ariannu'r systemau gwybodaeth gan gynnwys tanysgrifiadau aelodaeth, ffioedd, a gwerthu data i gyrff masnachol ond nid oes dim byd cadarn nac awdurdodol wedi'i rannu na'i gytuno gyda ni. Gallai fod goblygiadau ariannol yng Nghymru os bydd gofyniad i Lywodraeth Cymru neu gyrff ieuchyd danysgrifio ar gyfer aelodaeth o'r Systemau Gwybodaeth a chofrestrfeydd amrywiol er y gallai'r costau a ysgwyddir gan gyrff ieuchyd Cymru wrth gasglu a throsglwyddo'r data i'r systemau gwybodaeth yn rheolaidd gynnwys yr angen am adnoddau staff ychwanegol mewn gwasanaethau data. Cynhelir asesiad ariannol pellach pan fydd y costau tebygol yn hysbys a chaiff y manylion eu darparu mewn Cyngor yn y dyfodol.
17. Ar hyn o bryd, mae gennym gyllideb refeniw a chyfalaf ar gyfer 1 flwyddyn, 2020-21, sef y cyfnod y mae gennym setliad cyllido ar ei gyfer gan Lywodraeth y DU. Bydd costau sy'n dod o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol hon yn cael eu rheoli o fewn Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a bydd angen ystyried unrhyw gyllid posibl yn y dyfodol yng nghyd-destun yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant y disgwylir ei

gynnal yn ddiweddarach yn 2020 a blaenoriaethu buddsoddiadau o fewn MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, unwaith y bydd dyraniadau dangosol ar gael.

18. Mae'r asesiad effaith a ddiwygiwyd ar gyfer y cymal yma:

<https://publications.parliament.uk/pa/bills/lbill/58-01/116/5801116-IA.pdf>

### **Casgliadau**

19. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yng nghymal 16 ym Mil y DU gan y byddai'n sicrhau y byddai'r trefniadau y mae eu hangen i fonitro mewnbaniadau dyfeisiau meddygol yn effeithiol yn cael eu rhoi ar waith yn gynt ac am gost is na phe bai dull o weithredu pwrpasol ar gyfer Cymru yn unig ar gael.

20. Mae sefydlu cofrestrfa ar gyfer y DU gyfan hefyd yn dod â manteision sylweddol o ran ehangder y data a gesglir a'r cyfleoedd i ddysgu o'r data hynny.

21. Bydd deialog barhaus â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r pwyntiau sy'n peri pryder yn ystod toriad yr haf.



Ein cyf/Our ref MA-P/VG/2171/20

Dr Dai Lloyd AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

1 Medi 2020

Annwyl Dr Lloyd,

Cyfeiriaf at eich llythyr dyddiedig 23 Gorffennaf yn gofyn am eglurhad ynghylch y rhesymeg dros gyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i'r Senedd ar gyfer y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol, sy'n rhoi pŵer drwy reoliadau i alluogi'r GIG yng Nghymru i gymryd rhan mewn system wybodaeth ar gyfer dyfeisiau meddygol a weithredir gan NHS Digital.

Cafodd y gwelliant a oedd yn cyflwyno'r system wybodaeth ei gymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin a'i ymgorffori fel Cymal 16 ym Mil Tŷ'r Arglwyddi, a phe bai'n cael ei ddeddfu byddai'n effeithio ar bwerau datganoledig Llywodraeth Cymru o ran casglu, rheoli a defnyddio data mewn perthynas â materion iechyd.

Mae budd amlwg i Gymru o gymryd rhan yn system wybodaeth ledled y DU. Ymateb ydyw i'r Adolygiad Annibynnol o Ddiogelwch Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol, dan gadeiryddiaeth y Farwnes Cumberlege, a edrychodd ar y modd yr ymatebodd y gyfundrefn iechyd i adroddiadau gan gleifion am sgil-ffeithiau niweidiol meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol. Effeithiwyd yn andwyol ar nifer fawr o fenywod o Gymru gan y ddwy feddyginiaeth a'r dyfeisiau rhwyll a archwiliwyd gan y tîm adolygu.

Y bwriad yw y byddai'r system wybodaeth yn cael ei sefydlu i gefnogi effeithlonrwydd a diogelwch dyfeisiau meddygol a chefnogi cleifion sydd wedi cael dyfais feddygol, wedi cael eu profi ag un, neu wedi cael mewnbllannu dyfais feddygol i'w corff. Byddai'r system wybodaeth, drwy nodi achosion pan fo canlyniadau defnyddio dyfeisiau meddygol yn is na'r perfformiad disgwylidig, yn fodd i ysgogi ymchwiliadau prydlon a chamau dilynol a fyddai'n arwain at adalw'r dyfeisiau, gwneud gwelliannau iddynt neu newid y technegau clinigol a ddefnyddir. Byddai hefyd yn galluogi cleifion a chlinigwyr i nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â dyfeisiau penodol yn gynnar, ac yn eu galluogi i ddewis y triniaethau gorau a rhoi'r math o wybodaeth o ansawdd da sydd ei hangen ar gleifion i'w galluogi i gydsynio ar sail gwybodaeth i weithdrefnau clinigol. Mae darpariaethau'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r data gael ei ddarparu gan y GIG a chan ddarparwyr iechyd preifat.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I grynhoi, mae casglu data sy'n nodi dyfais feddygol benodol a data o gofnod gwybodaeth claf (fel manylion clinigydd, lleoliad, gwybodaeth am ddyfeisiau) yn golygu y byddwn yn y dyfodol yn gallu olrhain a chanfod dyfeisiau meddygol yn well os bydd pryder yn codi o ran diogelwch. Yn ogystal, bydd modd i faterion yn ymwneud â diogelwch cleifion ddod i'n sylw yn gynnar.

Mae eich llythyr yn holi pam na ellid cyflwyno'r trefniadau sydd yn y Bil ar wahân ar gyfer Cymru gan ddefnyddio deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn hytrach na deddfwriaeth y DU. Mae'r rhesymau dros ffafrio dull gweithredu ledled y DU yn hytrach nag un sydd wedi'i gyfyngu i Gymru yn cynnwys:

- byddai'r niferoedd uwch o gleifion a'r ystod o dechnegau clinigol dan sylw yn golygu y gellid gwneud cymariaethau mwy ystyrlon a defnyddiol gan wella'r potensial ar gyfer dysgu;
- hwyluso'r gwaith o rannu costau, arbenigedd a datblygu safonau a gweithdrefnau data cyffredin ar gyfer casglu, rhannu a dadansoddi'r data. Yn ogystal, defnyddio cyrff y DU, megis cofrestrfeydd, nad ydynt ar gael yng Nghymru. Byddai cynllunio a gweithredu system wybodaeth gyfatebol i Gymru'n unig yn annhebygol iawn o fewn amserlen resymol ac am gost gymaradwy.
- y cyfle i fanteisio ar y gwaith polisi, modelu a gweithredu ymarferol y mae'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (DHSC) wedi'i neilltuo i gyflawni ei gynigion, gan gynnwys canfod amser deddfwriaethol Seneddol.

Fel y soniais yn y memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, mae gennyf nifer o bryderon am y darpariaethau yn y Bil. Rwy'n pryderu bod DHSC yn bwriadu ymestyn cylch gwaith NHS Digital i Gymru a gwledydd eraill y DU, lle nad oes ganddo locws ar hyn o bryd. Rwy'n credu y dylai'r system wybodaeth fod yn eiddo ar y cyd i'r pedair gwlad a chael ei llywodraethu ganddynt, gyda threfn atebolrwydd ac adrodd i'r Gweinidogion Iechyd ym mhob un o'r pedair gwlad.

Rwy'n credu hefyd y dylai'r system wybodaeth gael y pŵer i ofyn am ddata gan y gyrff iechyd gwledydd eraill y DU yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol iddynt ei ddarparu. Yn ddelfrydol, dylai'r wybodaeth gael ei chasglu gan bob gwlad. Yn achos Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) fyddai'n casglu'r wybodaeth oddi wrth y Byrddau Iechyd Lleol ac yn ei throsglwyddo i NHS Digital. Byddai hyn yn sicrhau bod Cymru'n cadw ei data ac y gellid, pe bai angen, ei chynnwys mewn cofrestrfa fewnblaniadau yng Nghymru.

Ar bwynt cysylltiedig, mae gennyf bryderon ynglŷn â pherchnogaeth y data, yn enwedig a fyddai gan GIG Cymru fynediad at yr holl ddata, gan gynnwys data'r gwledydd eraill, i gynnal ei ddadansoddiadau ei hun. Deallaf fod NHS Digital yn cynnig ar hyn o bryd, er y gallai Cymru gadw ei data ei hun, na fyddai'n gallu cael gafael yn uniongyrchol ar ddata crai Lloegr a gwledydd eraill y DU i gynnal ei ddadansoddiadau ei hun, ond y byddai'n rhaid iddi ddibynnu yn hytrach ar "fewnwelediad" NHS Digital i'r data. Rwyf hefyd yn ansicr sut y byddai Cymru'n elwa pe bai data'n cael ei werthu'n fasnachol naill ai gan NHS Digital neu drwy sefydliad arall fel yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd. Mae cwestiwn cysylltiedig hefyd ynghylch a fyddai'r manteision datblygu economaidd sy'n deillio o'r ffynhonnell ddata yr un mor hygyrch i sectorau gwyddor iechyd holl wledydd y DU.

Yn olaf, dim ond dyletswydd gyffredinol sydd i ymgynghori ar y rheoliadau cysylltiedig yn y Bil. Nid oes gofyniad penodol i ymgynghori â llywodraethau cenedlaethol eraill y DU nac â'r cyrff iechyd y bydd darpariaethau'r system wybodaeth yn effeithio arnynt, ac mae ymgysylltu yn ystod proses y Bil yn gyfystyr ag ymgynghori. Mae swyddogion, ar y cyd â

swyddogion gwledydd eraill y DU, wedi bod yn trafod gyda DHSC gynnwys gwelliant i gryfhau'r ymrwymiad i ymgysylltu ac ymgynghori.

Ysgrifennais at yr Arglwydd Bethell, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol DHSC, sy'n arwain ar y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi am fy mhryderon ar 7 Gorffennaf, ond nid wyf wedi cael ymateb ganddo eto. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gysylltu â swyddogion yng ngwledydd eraill y DU, sydd â phryderon tebyg.

Rhyw'n copiö'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Chyfansoddiad.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Vaughan Gething AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

### Y BIL CAM-DRIN DOMESTIG

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy’n addasu’r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd Bil Cam-drin Domestig 2019-21 (y “Bil”) yn Nhŷr Cyffredin ar 3 Mawrth 2020. Gellir cael copi o’r Bil yn:  
[https://publications.parliament.uk/pa/bills/lbill/58-01/124/5801124\\_en\\_1.html](https://publications.parliament.uk/pa/bills/lbill/58-01/124/5801124_en_1.html) .

### Amcan(ion) Polisi

3. Diben y Bil yw codi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth o gam-drin domestig a’i effaith ar ddioddefwyr, gwella effeithiolrwydd y system gyfiawnder ymhellach o ran diogelu dioddefwyr camdriniaeth domestig a dod â throsteddwy gerbron y llysoedd, a chryfhau’r cymorth i ddioddefwyr camdriniaeth a’u plant a ddarperir gan asiantaethau statudol eraill.

### Crynodeb o’r Bil

4. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref a’r Weinyddiaeth Gyfiawnder.
5. Mae’r Bil yn gwneud y darpariaethau a ganlyn:
  - Mae **Rhan 1** yn darparu ar gyfer diffiniad statudol o gam-drin domestig sy’n sail i ddarpariaethau eraill yn y Bil.
  - Mae **Rhan 2** yn creu swydd Comisiynydd Cam-drin Domestig, yn nodi swyddogaethau a phwerau’r Comisiynydd ac yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus penodedig i gydweithredu â’r Comisiynydd.
  - Mae **Rhan 3** yn darparu ar gyfer cyfundrefn gorchmynion ataliol sifil newydd – Hysbysiad Diogelu rhag Cam-drin Domestig (“DAPN”) a Gorchmyn Diogelu rhag Cam-drin Domestig (“DAPO”).
  - Mae **Rhan 4** yn gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol haen un yn Lloegr mewn cysylltiad â darparu cymorth i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig a’u plant mewn llochesau a llety diogel arall.
  - Mae **Rhan 5** yn gwneud dioddefwyr camdriniaeth ddomestig yn gymwys yn awtomatig ar gyfer mesurau arbennig yn y llysoedd troseddol; ac yn gwahardd y rhai sy’n cyflawni rhai trosteddau rhag croesholi eu dioddefwyr yn bersonol yn y llysoedd teulu yng Nghymru a Lloegr (ac i’r gwrthwyneb) ac yn rhoi i lysoedd teulu y pŵer, o dan amgylchiadau penodol, i benodi cynrychiolydd cyfreithiol i gynnal y croesholi ar ran y person gwaharddedig.



- Mae **Rhan 6** yn estyn awdurdodaeth alltiriogaethol y llysoedd troseddol yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i droseddau treisgar a rhywiol ychwanegol.
- Mae **Rhan 7** yn gwneud darpariaeth amrywiol a chyffredinol. Yn benodol, mae'r Rhan hon yn galluogi cynnal profion polygraff ar droseddwyr cam-drin domestig fel un o amodau eu trwydded ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ddalfa; yn rhoi'r canllawiau sy'n ategu'r Cynllun Datgelu Trais Domestig ar sail statudol; yn sicrhau y rhoddir tenantiaeth oes ddiogel i bersonau sydd â thenantiaethau oes ddiogel neu sicr pan fo awdurdod lleol yn rhoi'r denantiaeth newydd am resymau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig; ac yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddyroddi canllawiau statudol.

### **Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

6. Mae'r darpariaethau a ganlyn yn y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru:

- **Cymal 3** (Plant yn ddiodefwrwr camdriniaeth ddomestig). Mae hwn yn cydnabod bod plant sy'n dystion i gamdriniaeth ddomestig yn y cartref hefyd yn ddiodefwrwr o ganlyniad i fod yn dystion i'r gamdriniaeth honno ac, o'r herwydd, mae unrhyw gyfeiriad at 'victim of domestic abuse' yn y Bil yn cynnwys plentyn o'r fath.
- **Cymal 65** (Nid yw cydsyniad i niwed difrifol er boddhad rhywiol yn amddiffyniad). Mae'r diwygiad hwn yn deddfu ar gyfer yr egwyddor (a bennwyd yn achos R. v. Brown [1993] 2 All ER 75), na fyddai cydsyniad i niwed difrifol er boddhad rhywiol yn amddiffyniad a, thrwy ymestyniad, na fyddai cydsyniad yn gymwys ychwaith pan fyddai gweithgarwch rhywiol o'r fath yn arwain at farwolaeth y diodefwr.
- **Cymal 66** (Troseddau yn erbyn y person a gyflawnir y tu allan i'r DU: Cymru a Lloegr) yw un o'r cymalau Rhan 6 a fewnosodir yn y Bil er mwyn bwrw ymlaen â chadarnhad y DU o 'Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Drechu Trais yn erbyn Menywod a Thrais Domestig' ("Confensiwn Istanbul"). Mae cymal 66(1) o'r Bil yn estyn cwmpas troseddau penodol yn erbyn y person sy'n golygu:
  - os yw trosedd o'r fath wedi'i chyflawni y tu allan i'r DU gan wladolyn o'r DU neu berson sy'n preswyl fel arfer yn y DU, a
  - bod y weithred yn drosedd o dan y gyfraith sydd mewn grym yn y wlad honno, a phe bai'n cael ei gwneud yng Nghymru a Lloegr, y byddai'n drosedd yng Nghymru a Lloegr,

yna mae'r person hefyd yn euog yng Nghymru a Lloegr o'r drosedd honno. Y troseddau sy'n cael eu cwmpasu gan gymal 66(1) yw: llofruddiaeth, dynladdiad, troseddau o dan adrannau 18, 20 neu 47 (troseddau sy'n ymwneud â niwed neu anaf corfforol) o Ddeddf

Troseddau yn Erbyn y Person 1861 a throseddau o roi gwenwyn o dan adrannau 23 neu 24 o'r Ddeddf honno.

- Fel ag yn achos cymal 66, mae **cymal 68** (Diwygiadau sy'n ymwneud â throseddau a gyflawnir y tu allan i'r DU) wedi ei gynnwys er mwyn bwrw ymlaen â chadarnhad y DU o Gonfensiwn Istanbul. Mae cymal 68 o'r Bil, a rhan 1 o Atodlen 2 iddo, yn diwygio Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997, Deddf Troseddau Rhywiol 2003 a Deddf Troseddu Difrifol 2015 er mwyn cael yr un effaith â chymal 66(1) mewn perthynas â'r troseddau o wneud i bobl fod ag ofn trais, stelcian sy'n cynnwys ofn trais neu ddychryn neu ofid difrifol, troseddau rhywiol penodol a restrir yn Atodlen 2 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, ac ymddygiad sy'n ymwneud â gorfodi neu reoli o fewn perthynas agos neu deuluol.
- **Cymal 73** (Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ddyroddi Canllawiau ynglŷn â cham-drin domestig, etc). Pŵer yw hwn i ddyroddi canllawiau ar effaith unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan Rannau 1 i 5 o'r Bil, adran 66 neu Ran 1 o Atodlen 2, neu adrannau 69-72, ac ar faterion eraill sy'n ymwneud â cham-drin domestig yng Nghymru a Lloegr. Yn benodol, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ddyroddi canllawiau ar effaith cam-drin domestig, y mathau penodol o ymddygiad sy'n gyfystyr â cham-drin domestig ac effaith cam-drin domestig ar blant. Mae cymal 73(6) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru i'r graddau y mae'r canllawiau'n ymwneud ag awdurdod Cymreig datganoledig.

7. Ystyrir bod angen cael cydsyniad y Senedd ar gyfer yr holl ddarpariaethau uchod.

### **Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Cam-drin Domestig**

8. Mae'r Bil yn ceisio gwella'r dulliau o atal camdriniaeth a diogelu dioddefwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd y mesurau mewn perthynas ag awdurdodau a gadwyd yn ôl yn ategu'r gwaith sydd eisoes yn digwydd yng Nghymru drwy Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.
9. Mae cymal 65 yn cyflwyno newidiadau sylweddol a phwysig gan ei fod yn deddfu ar gyfer yr egwyddor na fyddai cydsynio i niwed difrifol er boddhad rhywiol yn amddiffyniad; mae'n hanfodol ei fod yn cael ei weithredu ar draws awdurdodaeth Cymru a Lloegr ar yr un pryd.
10. Mae cymalau 66 a 68 o'r Bil wedi'u cynnwys er mwyn cyflawni rhwymedigaethau'r DU o dan erthygl 44 o Gonfensiwn Istanbul. Er y gallai'r Senedd basio deddfwriaeth i weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu cadarnhau Confensiwn Istanbul ar ei phen ei hun gan nad yw'n Genedl-wladwriaeth a rhaid iddi ddibynnu ar Lywodraeth y DU at y diben hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn

cefnogi'r camau sy'n cael eu cymryd mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU a fydd yn caniatáu cadarnhau'r Confensiwn.

11. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae cymal 73, (fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd), yn tresmasu'n sylweddol ar swyddogaethau gweithredol Gweinidogion Cymru a chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Bydd swyddogion yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU i geisio cael gwelliant i'r cymal er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r setliad datganoli yn gywir ac yn ei barchu.
12. At hynny, nid oes lle yn rhaglen deddfwriaethol bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru ar y materion hyn, ac nid oes unrhyw Fil yn y rhaglen y gellid ychwanegu darpariaethau o'r fath ato.

### **Goblygiadau ariannol**

13. Er nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru na Senedd Cymru yn deillio o'r pwerau o dan y Bil, efallai y bydd goblygiadau ariannol i Gymru yn y dyfodol o ran yr effaith gyffredinol pe bai dull gwahanol yn cael ei fabwysiadu.

### **Casgliad**

14. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan fod y Bil yn ymdrin â materion datganoledig a rhai nad ydynt wedi eu datganoli. O ran cydlyniad, mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai deddfu drwy Fil ar gyfer y DU gyfan yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur o godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â cham-drin domestig.

**Jane Hutt, AS**  
**Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**  
**Awst 2020**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Lesley Griffiths AS/MS  
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Ein cyf/Our ref: MA LG 2505 20

Mick Antoni AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru

6 Awst 2020

Annwyl Mick

## **FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL CYNLLUN Y TALIAD SYLFAENOL A CHYMORTH GWLEDIG O 2021 – Ymgynghoriad 31 Gorffennaf 2020 tan 23 Hydref 2020**

Cyhoeddais ymgynghoriad ar 31 Gorffennaf. Mae'n esbonio'r cynigion i sefydlu fframwaith rheoleiddio interim ar gyfer helpu ffermwyr o ddiwedd cyfnod gweithredu cytundeb gadael yr UE (31 Rhagfyr 2020) tan y caiff pwerau newydd Bil Amaethyddiaeth (Cymru) eu cyflwyno. Byddai'r cynigion hyn yn gweithredu'r pwerau yr ydym yn bwriadu eu gwneud trwy atodlen 5 o Fil Amaethyddiaeth y DU.

I weld y ddogfen ymgynghori, cliciwch yma: <https://llyw.cymru/ffermio-cynaliadwy-tir-symleiddio-cymorth-amaethyddol>.

Mae'r papur ymgynghori'n cynnig nifer o newidiadau mân ond arwyddocaol i'r fframwaith rheoleiddio (UE) a gedwir ar gyfer rheoli'r Cynllun Taliad Sylfaenol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig yng Nghymru. Bydd yr ymatebion a geir yn effeithio ar gwmpas y ddeddfwriaeth Gymreig y bydd ei hangen i weithredu'r cynlluniau domestig newydd ar ôl 2020, wedi i Lywodraeth y DU gadarnhau'r cyllidebau.

Ar ôl ymadael â'r UE ym mis Ionawr, fy mwriad oedd ymgynghori ddiwedd y gwanwyn ond bu'n rhaid gollwng yr amserlen oherwydd pandemig y Covid-19. Mae angen deddfwriaeth erbyn 31 Rhagfyr 2020 i sicrhau bod holl agweddau'r cynlluniau yn eu lle, yn enwedig o ran gorfodi safonau Trawsgydymffurfio yr amgylchedd ac iechyd a lles anifeiliaid ar 1 Ionawr 2021. Rwy'n sylweddoli y bydd y cynigion o ddiddordeb i

lawer, felly rwyf am gynnal ymgynghoriad llawn o 12 wythnos, sy'n golygu bod angen ei ddechrau nawr.

Fel a ddisgrifir yn y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amaeth y DU, mae pwerau'n cael eu cymryd ar gyfer Gweinidogion Cymru fel mesur dros dro inni allu parhau i gefnogi ffermwyr yng Nghymru a sicrhau bod sectorau amaeth ledled y DU yn gallu gweithredu'n effeithiol ar ôl i ni adael yr UE, ac mae'r ymgynghoriad, fydd yn para tan 23 Hydref 2020, yn gyson â hynny.

Rwy'n disgwyl ymlaen at glywed barn y Pwyllgor am y cynigion hyn. Maen nhw'n rhan bwysig o'r paratodau ar gyfer ymadael â'r UE a byddant yn rhoi'r dilyniant a'r sefydlogrwydd mawr eu hangen ar ffermio yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd digynsail a chyn trosglwyddo'n ffurfiol i'r cynllun Ffermio Cynaliadwy a gynigir ar gyfer y dyfodol.

Cofion

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Lesley Griffiths AS/MS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon